

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 315 - 60c
Gorffennaf 2013**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Annie yn
ennill yn ei
sioe gyntaf**



Tudalen 5

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 12

**Gethin a'i
gwpanau
lu yn y Rali**



Tudalen 13

Mudiadau y fro yn dathlu carreg filltir mewn cinio



Merched y Wawr Llambod wedi cyrraedd deugain oed ac yn dathlu'r achlysur gyda chinio yn Nhyglyn Aeron. Yn torri cacen y dathlu mae Noleen Davies, Llywydd y gangen, gyda hi (o'r chwith) mae Gwyneth Morgan, Ysgrifennydd; Beti Evans, Llywydd cyntaf y gangen; Janet Evans, Trysorydd ac Elizabeth Warmington, Trysorydd cyntaf.

C.Ff.I. Llanwenog yn dathlu wrth ennill y Rali unwaith eto



Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn dathlu bod y clwb wedi cyrraedd saithdeg oed gyda chinio yng Ngwesty Tyglyn Aeron. Torrwyd y gacen gan Gadeirydd y clwb, Siôn Evans.

Buwch go arbennig...



Rali Ffermwyr Ifanc Ceredigion gynhaliwyd yn Nhalybont Sadwrn Mehefin 15fed Llanwenog wedi ennill y Rali.



Buwch Limousin croes a roddodd enedigaeth i dripledi ar fferm Ian a Carwyn Lewis, Gwarcoedeinon, Llanwenog yn ddiweddar.



Urdd Gobaith Cymru
yn cyflwyno



Sioe Ffasiwn

gyda duet a lan lofft



5 Hydref 2013

4.30 yp

Coleg y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan

Tocynnau £15 yn cynnwys Tê Prynhawn

I archebu tocynnau cysylltwch â 01239 652150

Elw tuag at Uned Cancr y Fron Ysbyty Llanelli ac Urdd Gobaith Cymru Ceredigion
Cefnogir gan Banc Barclays



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Hazel Wilson.

Mehefin 19

Wynebaw cyfarwydd yn Nhîm Bowls Cymru yng nghystadleuaeth Ynysoedd Prydain.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Angharad Morgan Isaac.

Mehefin 18

Dathlu diwedd arholiadau yn Llanbed heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Aled Dafis.

Mehefin 16

Rhyfelwyr Celtaidd Llanwenog yn Rali CFFI Ceredigion ddoe.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Mehefin 15

Aelodau Corisma yn diddanu yn Niwrnod Agored Cartref Cwmaur, Llanybydder.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Mehefin 15

Diwrnod Agored i agor y Siop a'r Post yn swyddogol yn Garej Central Llanwnnen.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Bedwyr Davies.

Mehefin 9

Kevin Thomas, Abertawe yn ennill Cystadleuaeth Dartiau Castle Green.


Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH;
ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU.
O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.



- GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
- CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
- RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •



www.cartrefircwm.co.uk



Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU

Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Gorffennaf a Medi Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	

Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwerth y Ddraig Goch

Daw ambell i stori i Siprys o lefydd rhyfedd. Yn un o'r llyfrynau ym mhapur y Sul sy'n gwerthu nwyddau gwahanol iawn, 'roedd un hysbyseb yn gwerthu fflagiau.

Un Brydeinig £9.99
Un Lloeger - Sant Sior £6.99
Cymru - Y Ddraig Goch £29.99

Beth tybed sy'n gyfrifol am yr holl wahaniaeth? Tybed ai am fod Cymru yn werth llawer mwy na'r gwledydd eraill? Mae rhyddid i ni feddwl hynny beth bynnag!

Gall bod ar y blaen yn anodd!

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr â'r unigolion hynny sy'n gyfrwng i gyfleu dymuniadau'r Cyngor Sir i ni drigolion lleol. Nid yw'n hawdd dweud wrth gymuned fod ysgol yn cau neu bod toriadau mewn gwasanaethau'n dilyn. Nhw yn aml sy'n derbyn y bai i gyd, a nid y Pwyllgor sydd y tu ôl i'r cyfan.

Ail Ddarlledu

Yr ydym yn aml yn eithaf blin wrth weld ambell i raglen yn cael ei dangos o hyd ac o hyd. Rhaid i mi gyfaddef i mi fwynhau rhaglen a wnaed flynyddoedd yn ôl ar deulu Nantllwyd. Rhyfedd oedd gweld y diweddar Barchedig W J Gruffydd yn ein harwain ar draws yr unigeddau a'r gynulleidfa yn addoli yn Soar y Mynydd. Dyma ffordd fendigedig i greu diddordeb yn y genhedlaeth iau i ymddiddori yn yr hen ffordd o fyw.

Cadw'n heini!

Fues i ddim erioed yn berson cadw'n heini - hynny yw tan yn ddiweddar. Sut y daeth hyn i fod - yn syml, helpu i edrych ar ôl ŵyr un mis ar bymtheg. Mae Dydd Llun a Dydd Mawrth wedi eu neilltuo i warchod yr un bach, ac mae'n rhaid symud yn gyflym gan nid yw wedi dysgu cerdded - rhedeg mae'n gwneud ac mae'n rhaid i'w ddatcu a'i famgu fynd ar frys ar ei ôl. Daeth i mewn funud yn ôl a mynd i droi'r cyfrifiadur i ffwrdd, yna cydio ynof a'm harwain allan i chwarae. Diawch mae'n cadw dyn ar flaen ei draed.

Cnocell y Coed.

Fel arfer byddaf wedi peidio bwydo adar gwyllt erbyn hyn, ond oherwydd ymweliad rheolaidd Cnocell y Coed fe'm cynghorwyd gan gyfaill i gario mlaen i'w bwydo gan fod gobaith y daw hi â'r cywion bach i fwydo ar y cnau. Gobeithio'n wir y daw. Byddaf a'm camra yn barod, byw mewn gobaith efallai.

Gyda diwedd tymor yn nesau a'r mwyafrif o arholiadau drosodd bydd disgwyl eiddgar am ganlyniadau. Gwnwch y gorau o'ch cyfleoedd a cheisiwch fod â tharged clir o'ch blaen.

Pob hwyl i chi gyd a gobeithio y cawn dywydd da i fwynhau Haf hyfryd. Gyrrwch yn ofalus a gwyliwch y camerau cyflymder!

CLONCYN

Cyflwyno Siec

Ar Nos Fawrth 4 Mefehin 2013 yng Ngwesty'r Talbot, Tregaron cyflwynodd swyddogion Cymdeithas Grŵp Trafod Llanbedr Pont Steffan siec o £300.00 i apêl Ambiwylans Awyr Cymru, sef y swm a gasglwyd yng nghyfarfod o'r Gymdeithas yn ystod tymor yr Hydref. Diolch i'r aelodau oll am eu cyfraniadau hael at elusen haeddiannol. Ni wyr neb pryd na lle gall fod ei hangen a diolch i'r sefydliad am gynnig gwasanaeth amhrisiadwy i gefn gwlad.



Yn y llun gwelir Teifi Jenkins, Cadeirydd Cymdeithas Grŵp Trafod Llanbedr Pont Steffan yn cyflwyno'r siec am £300 i Kath Davies, Cynrychiolydd Lleol Ambiwylans Awyr Cymru, ynghyd â'r Trysoryddion, John a David Evans.

Yn ddiweddar bu trip y Gymdeithas i ardal Henffordd. Cafwyd diwrnod i'w gofio unwaith yn rhagor, drwy fynychu Marchnad Anifeiliad Byw Henffordd a thalu ymweliad â fferm Richard Sparey sef Garway. Mae'n ffermio 180 o wartheg biff a diadell o 1400 o ddefaid Aberdales ar 1200 cyfer ynghyd â thir â. Cafwyd croeso arbennig yno. Yn ôl yr arfer cafwyd swper blasus yn 'Bishop's Meadow'. Diolch yn fawr i'r rhai fu wrthi'n trefnu unwaith yn rhagor.

Bydd y trip blyneddol o 2 - 6 Medi 2013 i ardal Barnstaple, felly cysylltwch â Margaret Dalton neu Aneurin Davies i archebu lle!

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



Cynhaliwyd twrnament pêl-droed a rownderi cylch Llambed ar ddydd Gwener, Mehefin 28ain.



Cwrtnewydd yn ennill y gystadleuaeth bêl-droed i ysgolion bach y cylch a Llanllwni'n ail.



Ysgol Llanybydder yn ennill y rownderi i ysgolion bach y cylch a Chwrtnewydd yn ail.



Tîm B Ysgol Bro Pedr yn ennill y gystadleuaeth bêl-droed i ysgolion mawr y cylch a tîm A yn dod yn ail.



Bro Pedr yn ennill y rownderi i ysgolion mawr y cylch a Charreg Hirfaen yn ail.

GORFFENNAF

- 7 Taith Gerdded: Adnabod Eich Coed – Coedwig Gymunedol Longwood, Llambed am 12.00y.p.
- 10 Cyfarfod Cymal Llanbed Ras yr Iaith yn Llain y Castell am 7.00y.h.
- 12 Ffair Haf Ysgol Gynradd Llanwnnen yn yr ysgol am 4.00y.p.
- 12 Helfa Drysor Eglwys Llanwenog. Car cyntaf – 6.00y.h. a'r un olaf 7.15y.h.
- 13 Mabolgampau Blynnyddol Cwrtnewydd.
- 13 Côr Corisma - Taith Ddirgel.
- 15 Taith Gerdded Rhys Meirion yn cyrraedd Llanbed.
- 21 Noddfa yn trefnu Oedfa deuluol a Phicnic yn Ysgol Carreg Hirfaen am 3.30y.p.
- 28 Trip Eglwysy Bedyddwyr Gogledd Teifi.

AWST

- 9 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan. Manylion gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.
- 10 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 17 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan yn Ysgol Bro Pedr.
- 25 Taith Gerdded: Darganfod Gweision y Neidr - Coedwig Gymunedol Longwood, Llambed am 12y.p.
- 25 Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen yn Noddfa am 10.30y.b.
- 26 C.Ff.I Llanllwni yn cynal Sioe a Treialon Cŵn Defaid ar caeau Abercwm, Llanllwni. Am rhagor o fanylion cysylltwch â Meryl Davies ar 07913 305614 / 01559 384217.

MEDI

- 1 Cyngerdd gan Gôr Meibion y Mynydd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7.30y.h.
- 7 Sioe Amaethyddol Llandysul.
- 9 Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn Shiloh am 7.30y.h.
- 10 Cinio Eglwysy Bedyddwyr Gogledd Teifi yn y Grannell am 7.30y.h.
- 13 – 15 Ras yr Iaith drwy Geredigion.
- 28 Eisteddfod Gadeiriol Felinfach.
- 28 Arddangosfa a Ras Hwyl yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau i ddathlu 70 mlwydd oed C.Ff.I. Llanllwni. Os oes gan rhywun unrhyw hanes / gwybodaeth all y clwb fenthg i'r arddangosfa cysylltwch â Meryl Davies ar 01559 384217 / 07791 305614.
- 29 Gymanfa Ganu i ddathlu 70 mlwydd oed y clwb.


HYDREF

- 1 Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder am 7.00y.h. yn yr ysgol.
- 5 Sioe Ffasiwn yr Urdd gan 'duet a lan llofft' yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant am 4.30y.p.
- 11 Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 15 Sefydliad Prydening y Galon, Cangen Llanybydder a Llambed yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 y.h.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.

TACHWEDD

- 1 Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn y coleg. Adloniant gan Clive Edwards. Tocynnau ar gael gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.
- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 9 Gŵyl Cerdd Dant Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn Y Bont.
- 16 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.
- 17 Gymanfa Ganu Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Shiloh dan arweiniad Carys Lewis am 7.00y.h.
- Cyfeilydd Bryan Jones.
- 30 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd.

Aelodaeth CLWB CLONC
- £5 y rhif i'w dalu mor fuan â phosib. Diolch.



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

23 Stryd y Bont, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwniciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Pencarreg

Cymorth Cristnogol

Mae Ruth Jones, Min y Llyn wedi bod yn brysur yn hel arian tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Diolch i Ruth a'r swm y tro yma yw £74.26c.

Llwyddiant Annie

Yn dair mlwydd oed bu Annie Thomas, Dolwar Fach yn cystadlu am y tro cyntaf ar gefn ei cheffyl 'Spike' yn Sioe Geffylau, Ffos y Ffin, ar ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain. Daeth adref â rhes o fathodynau lliwgar ar ei chôt ac un mawr coch! Llongyfarchiadau Annie a 'Spike'.



Gwellhad

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Jennifer Evans, Blaenbydernin ar ôl iddi syrthio a thorri ei hysgwydd. Gwella gloi Jennifer.

Ffair Haf Eglwys Pencarreg

Cae ger y Llyn, Gorffennaf 6ed 12-3:30.

Mae angen arian tuag at gywiro nifer o broblemau megis trydan yn yr Eglwys. Da gweld bobl ifanc yr ardal yn helpu'r ffyddloniaid gyda'r fenter. Bydd nifer o weithgareddau ac amrywiaeth o stondinau! Castell Bownsio, Stondin gacennau, taflu welington, Tombola ac eraill. Sioe anifail anwes a llawer mwy!!

Gwobrau Raffl

- Tocyn teulu i 4 i'r Scarlets
- Pentrebach – tocyn teulu i 4.
- Ar y Bêl, Synod Inn – Tocyn teulu
- Fferm Ffanti – Tocyn teulu i 4
- Castle Green - £10
- Gwesty'r Glynhebog – 1 cinio Sul
- Little Emz, Llanybydder – mynediad am ddim i 2
- Ruby Rose – clustdlysau
- Saddle Tramps – awr o farchogaeth.

Rhoddion at yr achos

1. Cigyddion Jones Bros – byrgers a selsig

2. Bara Gwalia – bara

3. Siop y Bont – melysion

4. Mr Burke, Compton – melysion

Dewch i gefnogi'r achos a'r bobl sy'n gwynebu pwysigrwydd cadw'r Eglwys i'r gymuned a'r dyfodol.



Cyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolgwm, Pencarreg â'u ffrindiau ar noson eu haduniad yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder yn ddiweddar.

Aduniad Ysgol Pencarreg

Hyfryd oedd cael bod yn rhan o'r noson fythgofiadwy yn y Llew Du, Llanybydder pan ddaeth cyn-ddisgyblion a'u ffrindiau ynghyd i ddathlu atgofion a chyfeillgarwch dyddiau cynnar.

Nid ym aml cynhelir aduniad lle mae'r ysgol wedi cau ers cymaint o flynyddoedd.

Agorwyd Ysgol Dolgwm, Pencarreg yn mis Mai 28ain 1877 ac ar y diwrnod trist, Ebrill 2il 1969 bolliwyd y drysau a distawodd y mynydd a arferai atseinio chwerthin iach plant yr ardal.



Yn ystod y dathlu diddorol oedd cael gweld a thrafod yr holl hen luniau o'r ysgol, y disgyblion, athrawon, menywod y gegin. Gwelsom lun aelodau 'Home Guard', Pencarreg ac un o hen bentref Pencarreg cyn adeiladu tai cyngor ac ambell fwthyn hynafol to gwellt. Roedd Non a Beti, Blaencarreg wedi dod â llyfrau oedd wedi cael eu cyflwyno iddynt am gadw presenoldeb di-dor am nifer o flynyddoedd. Roedd Ruthie Williams wedi mwynhau cwmnia a diolch iddi am dorri'r gacen a wnaed gan Gareth Richards. Diolch am help Beti Jacob i addurno'r byrddau. Gwynfor ac Ann Lewis am fod yn gyfrifol am dderbyn yr arian ac i Jean am ei chroeso yn y Llew Du. Diolch i Ann Mayes a Siân am baratoi gwledd o fwydydd blasus. Diolch i Brenda a Barbara am arwain pawb i rannu atgofion pleserus a'r hwyl ynghlwm â'u dyddiau yn yr ysgol. Diolch i Ceinwen am gyfeilio ac i Graham am arwain y canu ac i Elwyn am ei unawd fendigedig o Nant y Mynydd.

Diolch i bawb am yr hwyl a'r cyfeillgarwch byrlymus wnaeth sicrhau noson lwyddiannus fydd yn aros ar gof.



Meirion Thomas, Trysorydd Aelwyd yr Urdd, Llambod gyda thri aelod arall, Megan Mai Jones, Sara Elan Jones ac Owen Davies yn cyflwyno sic am £250 i Ann Herbert cynrychiolydd Apêl Nancy. Roedd yr arian yn rhan o gasgliad Sul yr Urdd yng Nghapel Noddfa, Llambod.

Cerddwn Ymlaen

13eg 20fed o Orffennaf

Mae Cerddwn Ymlaen yn daith gerdded 200 milltir ar draws Cymru yn cael ei arwain gan y tenor rhyngwladol o Gymru, Rhys Meirion. Eleni, bydd 15 o gerddwyr yn ymgymryd â'r daith ac mae'r daith yn dod i'ch ardal chi!

1. Llwybr y Daith

Bydd y daith yn cychwyn yng nghanol Abertawe ac yn mynd drwy Llanelli, Caerfyrddin, Llanbed Pont Steffan, Aberaeron, Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, Y Bermo, Harlech, Penrhyndeudraeth, Porthmadog ac yn gorffen ar Y Maes yng Nghaernarfon.

Dydd Llun 15 Gorffennaf 2013

8.30yb Cychwyn yn Ysbyty Glangwili ac yna cerdded drwy bentrefi, Peniel, Alltwalis, Llanllwni, Llanybydder, Cwmann a chyrraedd Llambled erbyn 7.00yh

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2013

8.30yb Cychwyn o Lamberd i Dalsarn ac yna ar hyd y llwybr o Dalsarn i Lanerchaeron ac yna o Lanerchaeron i Aberaeron. Anelir i gyrraedd Harbwr Aberaeron am 1.30yp. Yna wedi cinio cerdded o Aberaeron i Lanrhystud ar hyd llwybr yr arfordir ac yna o Lanrhystud i Lanfarian.

Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

8.30yb Cychwyn o Lanfarian, Penparcau, Llanbadarn, Aberystwyth, ar hyd llwybr yr arfordir i Borth, Tre Taliesin Eglwys Fach, Machynlleth

2. Y Cerddwyr Craidd

Bydd Rhys Meirion yn arwain tîm o 14 cerddwr craidd, fydd yn cerdded y 200 milltir cyfan. Y cerddwyr craidd yw Robin McBryde (Hyfforddwr Tîm Rygbi Cymru), Gerallt Pennant (Darlledwr), Iolo Williams (Naturiaethwr), Tudur Owen (Digrifwr), Sioned Terry (Cantores), Dylan Parry (Meddyg), Jason Williams (Rheolwr Gweithredol, Ambiwylans Awyr Cymru) Y Capten Grant Elgar (Peilot, Ambiwylans Awyr Cymru) Ian Thomas (Paramedic, Ambiwylans Awyr Cymru), Aled Sion (Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd), Arwyn Davies (Rheolwr Cwmni PR), Hilary Briggs (Cyfarwyddwr Cwmni), Vicky Gardner (Noddwr) ac Osian Meirion (Myfyriwr)

3. Adloniant

Bydd adloniant yn cael ei drefnu bob nos ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r artistiaid canlynol am roi eu gwasanaeth i gefnogi y daith. Dyma'r manylion ar hyn o bryd -

Nos Lun, Gorffennaf 15fed - Gwesty'r Castell, Aberaeron
Doniau lleol – Bois y Gilfach, Iestyn, Gwenno a Rhydian, Piantel
Nos Fawrth, Gorffennaf 16eg - Gwesty'r Marine, Aberystwyth
Noson Casino Royale

4. Cerddwyr Gwadd Dyddiol

Yn ogystal â'r 15 cerddwr craidd, mae cyfle i 10 cerddwr gwadd ymuno â ni bob dydd. Bydd y cerddwyr gwadd yn cerdded oddeutu 25 milltir i godi arian i Ambiwylans Awyr. Mae dros hanner cant o enwogion y teledu a'r meysydd chwarae, gwleidyddion a dinasyddion amlwg wedi nodi eu bwriad i gerdded eisioes gan gynnwys Y Prif Weinidog, Carwyn Jones, y darlledwyr Rhodri a Lucy Owen a'r chwaraewr rygbi rhyngwladol, Ken Owens. Bydd rhestr gyflawn ar wefan cerddwnymlaen.com

5. Y Cymalau Cyhoeddus

Mae nifer o gymalau yn ystod y daith lle fo cyfle i aelodau y cyhoedd ymuno gyda ni, mae'r manylion llawn ar www.cerddwnymlaen.com Mae angen i bawb sydd eisiau cerdded gofrestru i wneud hynny ar y safle wê- mae cost o £20 i oedolion a bydd pawb sy'n cerdded yn derbyn pecyn sy'n cynnwys crys t a nwyddau eraill ac yn cael cyfrif unigol i godi arian drwy 'Just Giving'. Mae plant yn cael ymuno am ddim ond mae angen iddynt fod o dan ofal oedolyn neu yn rhan o grŵp ysgol.

6. Cyfrannu Arian

Gall pawb gyfrannu arian i gefnogi y Cerddwyr Craidd, sy'n cerdded fel un tîm, drwy fynd i'r wefan, clicio ar 'Rhoddwch' a dilyn y cyfarwyddiadau i wneud rhodd gyda cherdyn debyd neu gredyd. I gefnogi Cerddwyr Gwadd neu Gerddwyr Cyhoeddus cliciwch ar eu llun unigol yn yr adrannau priodol o'r wefan a dilyn y cyfarwyddiadau. Bydd y cyfanswm cyfredol i bob adran yn cael ei ddangos ar brif dudalen y wefan. Mae ffurflenni noddi ac amlenni 'Gift Aid' hefyd ar gael i bobl sydd eisiau cyfrannu gyda siec neu arian parod. Hefyd, gall pobl fynd i unrhyw gangen o Fanc HSBC yng Nghymru a gwneud cyfraniad dros y cownter drwy ddyfynnu 'Cerddwn Ymlaen'. Os am fwy o fanylion am y daith yn lleol cysylltwch ag Anwen Eleri ar 07976 003336.

Taith Capel Shiloh

Mae'n anodd cymharu triapiau a drefnir gan Twynog ond ym marn llawer roedd y trip eleni yn siwr o fod yn un o'r goreuon.

Cychwynasom o Lanbed yn brydlon gan aros ym Machynlleth am seibiant a chwpanaid o dê.

Yna ymlaen i bentref Llanuwchllyn a chael hanes y pentref hanesyddol a diwylliedig hwn gan Ann Lloyd Davies wrth i'r bws deithio'n araf o un pen o'r pentref i'r llall. Daeth ag ardal Syr O.M. Edwards yn fyw i ni.

Yr ymweliad nesaf oedd â Choleg Bala a chlywed gan y warden, Sian Edwards, am y llu gweithgareddau hwylus a difyr a drefnir yno i blant ac ieuenctid yr ardal, y cyfan wedi eu selio ar ddysgeidiaeth yr Iesu.

Erbyn hyn roedd yn amser cinio felly arhosom ar lan Llyn Trewern i fwyta tocyn ac i sylweddoli y difrod a wnaeth boddi'r dyffryn i drigolion yr ardal.

Ar ein ffordd i Bortmeirion aethom drwy Trawsfynydd i weld cofgolofn Hedd Wyn a chael ychydig o'i hanes a chlywed am erchyllion y rhyfel byd cyntaf gan John Phillips.

Cyrhaeddodd ben y daith yn gynnar yn y prynhawn gan dreulio ychydig oriau difyr yn edmygu y pentref Eidalaidd a gynlluniwyd gan Clough Williams Ellis yn nechrau'r ganrif ddiwethaf. Erbyn hyn roedd yr haul yn tywynnu'n braf arnom.

Yn ystod yr holl daith cawsom hanesion difyr am y gwahanol ffermydd a chartrefi rhai o enwogion Cymru gan Twynog. Synnwyd pawb gan ei wybodaeth helaeth o un o ardaloedd prydferthaf Cymru.

Ar ein ffordd adref cawsom swper blasus iawn yn y Llew Coch, Dinas Mawddwy. Diolchodd Rhys Bebb i bawb a fu'n cyfrannu tuag at lwyddiant y dydd yn enwedig i Twynog am drefnu ymweliadau mor ddiddorol ac am ei barodrwydd bob amser i gymryd at y gwaith.

Tribanau Gerwyn Trebannau
I Drip Shiloh/Soar Llambled ar Fehefin 26, 2013.

'Roedd hwn yn drip ardderchog A drefnwyd gyda Twynog - A'i fawr wybodaeth am "Y North", Yn ymborth, i bob stumog!

I bawb gael stretcho'u coese'... Machynlleth dref, i ddechre, Ac yno ..te neu goffi gwan ... Cyn cychwyn lan i'r topie'.

A wedyn ...mlaen â'n siwrnai, Mynd draw i bwys Dolgellau, Ac yno – troi i hewl Rhyd'main I harddwch cain y brynau.

Cyn hir, dod lawr i'r dyffryn A theithio drwy Llanuwchllyn, Lle rhannodd chwaer – daeth ar y "bus" Heb "fuss" – fel roedd, - ers meitin.

Mynd heibio Llyn y Bala I'r coleg, fu'n cam nesa' – A gweld rhai ifanc wrth y llyw Oedd yn beth byw, i'r eitha.

A wedyn o'r fan yna At gylch yr hen atomfa Lle bu Gras Duw'n Nhrawsfynydd fro Yn safio'n gwlad – o'i gwaetha.

Ac yna heb drafferthion Drwy Benrhyndeudraeth 'n 'union I ben ein taith, fe ddaethom ni I erddi hardd Portmeirion.

O'r bws yn awr heb ddadlau Daeth pawb am 'chydig orie A phob un bron, yng ngwres yr Ha' Â hufen iâ'n eu cegau.

Y dydd aeth heibio'n fuan Ond ef, nid drosodd weithan, Cans i'r Llew Coch try'r bws ei drwyn Roedd Dinas Mawddwy'n glorian.

A nawr, ar ein ffordd adre Cael swper, do, y gore! Rhown glod i'r trefnydd gwych di-ail, A'r haul i'r ucheldere.



Graddio

Llongyfarchiadau i Carys Lewis, Tycerrig am ennill gradd MA mewn Addysg o Brifysgol Bangor.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Rhiannon Lewis, Tanlan sydd wedi torri ei braich wedi anffawd diweddar.

Braf yw gweld Gwen Jones, Gellidewi yn gwella ar ol ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Roedd cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol yn rhagorol sef £1,219.44c. Mae ein diolch yn fawr i'r casglwyr o'r eglwysi lleol ac i bawb am roi mor hael. Da iawn pobl Cwmann.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Joan Davies a'r teulu, 38 Heol Hathren ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar ac unrhyw un arall sydd wedi colli anwyliad.

Clwb 125 – Neuadd Sant Iago

1. Mrs Ann Jones, Aelfryn, Cwmann, 63; 2. Mrs Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann; 54. 3. Mr Vaughan Abel, Neuadd Deg, Cwmann; 119. 4. Mr Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni. 82. 5. Mr Aneurin Jones, Hathren, Llambled, 144. 6. Carol Doughty, Cerys, Cwmann; 15. 7. Mrs Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 28. 8. Mr Noel James, Emllyn Cottage, Cwmann; 42. 9. Mrs Audrey Bonner, Bridge Street, Llambled, 6.

Clwb 225

1. Rhiannon Lewis, Tanlan, Cwmann; 126. 2. Mr Ernie Randall, Blaencwm, Cwmann, 225. 3. Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Stryd y Bont, Llambled, 125. 4. Alan a Sulwen Morgan, Llwynfedw, Llambled, 156. 5. Seren Ling, Glynbedw, Cwmann, 104. 6. Cerdin Price, Langwm, Llambled, 41. 7. Danny Davies, Brynteifi, Cwmann, 55. 8. Dylan a Carys Davies, 8 Cysgod y Coed, Cwmann; 39. 8. Mrs Ruthie Williams, Rhiwlas, Cwmann, 151. 10. Mrs Wendy Evans, Parcyrrhos, Gorsgoch, 214.

Diolch

Dymuna Gwen Jones, Gellidewi ddiolch am y cardiau, galwadau ffon, rhoddion a'r cymwynasau lu a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ol dod adref.

Priodas Dda

Ar ddechrau mis Mehefin priodwyd Morgan, mab Andrew a Pat Jones â Kate Pitcher lawr yn Falmouth. Dymuniadau gorau i'r ddau ar eu priodas.

Sefydliad y Merched Coedmor.

Daeth y Gangen ynghyd ar nos Lun y 3ydd o Fehefin yn Heol Hathren, Cwmann i fynd ar daith a oedd wedi ei threfnu gan Robert Thomas a fyddai yn ein tywys. Ar noson fendigedig a chlir teithiom heibio i Dafarn Jem i'r brynau uwchben Graig Twrch ac ymlaen i safle Tafarn Halfway sydd erbyn hyn ond adfail. Aethom ymlaen wedyn i ardal Llanfair Clydogau a Chellan. Cawsom amser diddorol ac addysgol wrth i Robert adrodd hanesion a siarad am bobl enwog a chymeriadau'r ardaloedd. Ar ddiwedd y daith buom yn gweld gardd Robert sydd wedi ei lleoli uwchben Llanfair ac yn cynnwys amryw o lysiau a ffrwythau a llyn bychan i gadw pysgod a denu bywyd gwyllt.

Daeth y daith i ben yn Llaindeg, cartref Robert, lle'r oedd te a brechdanau blasus iawn yn ein disgwyl.

Ar ôl gwledda cynhaliwyd cyfarfod byr gyda ein Llywydd Morfudd Slaymaker yn y gadair. Dymunodd wellhad buan i Gwen Jones a oedd yn yr ysbyty. Diolchodd Tegwen Williams i Robert am roi noson mor ddiddorol a hwylus i ni ac am roi'r cyfle i ni gael glywed y gwcw.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu plant yr ysgol yn brysur yn ymarfer canu a chwarae offerynnau ar gyfer Cyngerdd Proms Sir Gâr yn ddiweddar. Bu'r plant yn teithio i Gaerfyrddin i ymarfer, ac mewn cyngerdd bythgofiadwy yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin yn ystod y mis. Cafwyd diwrnod mabolgampau hwylus iawn ar ddiwrnod hynod o braf ar gae Pentref Cwmann ar y Sed o Fehefin efo Tai Cothi a Teifi yn ymgiprys am dlws y Tŷ gorau. Ar ôl prynhawn o gystadlu brwd, Cothi ddaeth ar y brig. Enillwyr y medalau am y pwyntiau unigol uchaf yn y Cyfnod Sylfaen oedd Cafi Gregson a Hari Mansel Jones.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 yr enillwyr oedd Mali Jones, Sion Aled, Dafydd Jones, Beca Ann Jones, Llywelyn James, Chelsea Jenkins a Ben Davies. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Yn ystod y mis hefyd, mwynhaodd disgyblion yr ysgol b'nawn braf o fabolgampau Dyffryn Cothi ar gaeau Ysgol Llansawel gyda phawb yn cael y cyfle i gymryd rhan. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd rhan.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn mynd i Ysgol Bro Pedr ym mis Medi sef Ben Davies, Llion Herbert, Marcus Cliff, Shannon Jones, Chloe Jones, Lexie Blyth, Cara Rowcliffe, Naomi Howell, Amy Richards, Catrin Ashley, Janis Neal, Louise Roberts,

Lisa Evans, Merlyn Hawthorne a Chelsea Jenkins. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn a diolch yn fawr i chi am eich holl ymroddiad i fywyd ysgol Carreg Hirfaen.

Daeth ymwelydd i'r ysgol o'r RNLI i siarad â phlant y Cyfnod Sylfaen am ei waith gwirfoddol efo'r RNLI. Cafwyd trafodaeth ddiddorol gyda'r plant yn gofyn cwestiynau iddo am ei swydd.

Graddio

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ei lwyddiant yn ennill gradd B.Sc mewn Economeg o Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Yn ychwanegol, daeth y newyddion da ei fod wedi ennill ysgoloriaeth i astudio am radd MA yn adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol y Brifysgol.

Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Oherwydd amryfusredd technegol ni ymddangosodd y canlynol yn y rhifyn diwethaf – ymddiheuriadau mawr.

Diolch

Dymuna Joan, Aled, Iwan, Iona a'u teuluoedd, Penrhos, Swyddffynnon, ddiolch o waelod calon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad, mewn gair a gweithred, a ddangoswyd tuag atynt ar adeg trist iawn pan gollwyd Gwilym mor frawychus o sydyn. Diolch am yr ymweliadau, galwadau ffon, blodau a'r cardiau a dderbyniwyd, hefyd y rhoddion er cof. Bydd y cyfanswm o £2250 yn cael ei rannu rhwng Ymateb Cyntaf Cylch Tregaron ac Ymddiriedolaeth Mynwent Ystrad Fflur.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

14eg Medi 2013

Llywyddion: Mr a Mrs Arthur Roderick, Awelon

Sioe, Cystadlaethau CFfl, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirmiadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

Gohebiaeth

Llys Deri, Llanwenog, Llanybydder.

Annwyl Swyddogion CLONC, Diolch am eich llythyr at Glwb Fferwmyr Ifanc Llanwenog.

Gwerthfawrogn eich cefnogaeth misol gan weld gwerth a mwynhad yn adroddiadau ein clwb a'n Sir yn y papur. Diolchwn am eich gwaith caled parhaol.

Wedi trafod eich llythyr yng Nghyfarfod y clwb dyma gyfraniad o £100 tuag at y papur gan helpu i sicrhau dyfodol llewyrchus iddo.

Cofion gorau, Siwan Davies, Trysorydd C.Ff.I. Llanwenog.



Cystadleuaeth Cneifio CFfl Cwmann a gynhaliwyd yng Nghaernant, Cwmann: Hywel Herbert y beirniad yn llongyfarch pencampwr yr aelodau Aled Thomas, ynghyd â Llion Russell enillydd y cyn aelodau ac Angharad Williams enillydd y merched gyda'r llywydd Kevin Jones a'i wraig Elin.

C.Ff.I. Talybont yn cynnal Rali C.Ff.I. Ceredigion

Gwelwyd tyrfâ dda o aelodau a chefnogwyr brwdfrydig yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ar ddydd Sadwrn 15fed o Fehefin. Enillwyr llynedd, Talybont, oedd yn cynnal y Rali.

Cynhaliwyd y digwyddiad ar fferm Berthlwyd drwy garedigrwydd Mr a Mrs David Jones, Elfed a Ffion a chynhaliwyd y ddawns ar fferm Neuadd Fawr drwy garedigrwydd Mr a Mrs David Evans a'r teulu. Mae'r ffederasiwn yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu croeso cynnes. Hefyd diolch i Lywydd y Dydd, Mr David Jones, Bwlchyddwyallt am ei bresenoldeb, ei haelioni a'i gymorth i'r Rali. Diolch hefyd i Brif Noddwr y Rali sef i Banc Barclays.

Yn y Rali, a gafodd ei drefnu gan y Swyddog Datblygu, Mared Jones a'r Swyddog Gweinyddol, Anne Jones, gwelwyd aelodau o bob cwr o'r sir yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, sydd heb os yn ffenest siop i'r 19 o glybiau a wnaeth gystadlu.

Thema'r Rali eleni oedd 'Y Celtiaid Ddoe a Heddiw' a fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol.

Uchafbwynt y dydd oedd coroni Mererid Davies o G.Ff.I. Pontsian, Brenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn. Cafodd ei hebrwng i'r llwyfan a oedd wedi eu haddurno'n hyfryd, gan ei morwynion, Nia Medi Jones o Llanddewi Brefi, Luned Mair, Llanwenog, Bethan Roberts, Mydroilyn a Gwawr Thomas o Bontsian. Gyda nhw hefyd oedd Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn, Arwel Jenkins, Llanwenog. Pob lwc iddynt yn eu swyddi newydd am y flwyddyn.

Dyma restr o'r enillwyr: Arddangosfa Ffederasiwn – Penparc; Barnu Gwartheg Duon Cymreig – 16 oed neu iau – Eiry Williams, Llangwryfon; 21 oed neu iau – Richard Downes, Llangeitho; 26 oed neu iau – Rhydian James, Troedyrur; Tîm buddugol – Llangwryfon; Ar y Newyddion – Llanwenog; Coginio – Enfys a Gethin Hatcher, Llanwenog; Gosod Blodau – Angharad Jones, Llanddewi Brefi; Crefft – Carwyn Davies, Llanwenog; Cystadleuaeth yr Aelodau – Llanwenog; Dawnsio – Mydroilyn; Tîmod Cenedl Celtaidd – Bryngwyn; Crefftau Gwledig – Caerwedros; Coedwigaeth – Emyr a Gareth Harries, Llanddeiniol; Barnu Defaid Torddu – 16 oed neu iau – Gethin Morgan, Bro'r Dderi; 21 oed neu iau – Morys Ioan, Caerwedros; 26 oed neu iau – Eilir Jones, Felinfach; Tîm – Felinfach; Her Geltaidd – Llanddeiniol; Gwisgo i Fyny – Caerwedros; Mae gan Celtwyr Dalent – Felinfach; Cneifio Defaid 21 oed neu iau – Ceredig Lewis, Llangwryfon; 26 oed neu iau – Heilin Thomas, Llanwenog; Barnu Cobiau Adran D – 16 oed neu iau – Lowri Reed, Pennant; 21 oed neu iau – Esyllt Jones – Pennant; 26 oed neu iau – Eleri Marshalsay, Llanddeiniol a Rhys Lloyd-Jones, Llanddewi Brefi; Helfa Sborion Geltaidd – Dihewyd; Ras Siariot Geltaidd – Bro'r Dderi; Tablo – Llanddewi Brefi; Tynnu'r Gelyn – Merched – Pontsian; Tynnu'r Gelyn – Bechgyn – Llanwenog; Gwneud Arwydd – Troedyrur; Barnu Stoc – Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau – Gethin Morgan, Bro'r Dderi; Unigolyn Uchaf 21 oed neu iau – Richard Downes, Llangeitho; Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau – Rhydian James, Troedyrur; Unigolyn Uchaf yn y Barnu Gwartheg – Richard Downes, Llangeitho; Unigolyn Gorau am y rhesymau yn Gymraeg – Eiry Williams, Llangwryfon; Clwb Gorau yn y Barnu Stoc – Llangwryfon; Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn – Mererid Davies, Pontsian ac Arwel Jenkins, Llanwenog; Anrheg Goffa W.G. Hughes & W.D. Lewis – Gwennan Davies, Llanwenog a Llion Davies, Troedyrur; Ysgrifennydd Clwb Gorau – Nia Medi Jones, Llanddewi Brefi a Luned Mair, Llanwenog; Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol – Elgan Evans, Talybont; Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn – Morys Ioan, Caerwedros; Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2012/13 – Buddugwyr – Llanwenog; ail fuddugol – Pontsian; Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2012/13 – Llanddewi Brefi;

Canlyniadau Terfynol y Rali:

1. Llanwenog; 2. Llanddewi Brefi; 3. Llanwgryfyon; 4. Llangeitho; 5. Troedyrur; 6. Pontsian; 7. Penparc; 8. Mydroilyn; 9. Llanddeiniol; cydradd 10. Caerwedros a Felinfach.

Cafodd y penwythnos prysur yma ei gloi gyda Chymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel Bethel, Talybont ar y Nos Sul.

Tynnwyd Clwb 200 yn ein cyfarfodydd misol, a dyma restr o'r enillwyr: - 1af C.Ff.I. Troedyrur; 2il Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir, Cwrtnewydd 3ydd Dennis Davies, Penlon Esgair, Pontsian.

Cafodd swyddogion 2012-2013 gyfle i fynd o amgylch sioe Aberystwyth mewn hen lori. Hefyd gwelwyd stondin gyda'r C.Ff.I. ar faes y sioe.

Treuliodd nifer o aelodau y penwythnos yn Sioe'r Ucheldir. Cafodd pawb benwythnos i'w chofio.

Ar yr un penwythnos cynhaliwyd Chwaraeon C.Ff.I. Cymru yn Llanbed, Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu yn cynrychioli Ceredigion ar lefel Cymru ond yn enwedig i dîm hoci Pontsian, a thîm cymysg y 'Frizbee' a wnaeth ennill eu cystadleuthau ac i dîm pêl droed 5 bob ochr ar tîm 'Dodgeball' am ddod yn drydydd.

Cofiwch os ydych yn ymweld â'r Sioe Frenhinol ar 22ain tan 25ain o Orffennaf i fynd i adran y C.Ff.I. lle bydd nifer fawr o aelodau C.Ff.I. Ceredigion yn cymryd rhan. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn ystod wythnos y sioe.

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru



Haf y Plant

Pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i'n methu aros tan wyliau'r haf a'r cyfle i dreulio fy nyddiau ar fy meic yn crwydro o gwmpas Maesycrugiau gyda'm brawd a'm chwaer a'm ffrindiau. Byddem yn treulio oriau yn gwneud 'dens', dringo coed a 'choginio' pasteiod mwd, ac ar un adeg rwy'n cofio treulio dyddiau'n gwneud persawr â bwcedi o ddŵr a phetalau blodau o'r ardd a'r cloddiau o'n cwmpas.

Mae Byd Natur yn faes chwarae arbennig i'n plant. Maen nhw'n cael cyfleoedd i ddysgu am y byd o'u cwmpas ac yn cael defnyddio sgiliau adnabod, sgiliau meddwl a chyfle i ddatblygu eu dychymyg heb orfod gwario arian ar fynediad i barciau thema na phrynu gemau drud ar gyfer y cyfrifiadur! Ac yn bwysicach fyth, maen nhw'n cael cyfle i redeg o gwmpas yn fyrlymus yn yr awyr iach!

Yn y rhifyn yma, byddaf yn sôn am fannau lle gall teuluoedd â phlant ifanc fynd i feicio'n ddiogel yn ogystal â gweithgareddau y gallwch chi eu gwneud gyda'r plant yn rhad ac am ddim dros wyliau'r haf.

'Ar dy feic!'

Y llwybrau beicio mwyaf addas ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc yng Ngheredigion yw Llwybr Dyffryn Aeron sy'n rhedeg rhwng Aberaeron a Llanerchaeron a rhan o Lwybr Ystwyth sy'n mynd o Gors Caron i Ystrad Meurig.

Llwybr Dyffryn Aeron

Mae hwn yn llwybr 3km o hyd ac ar wahân i damaid o inclein wrth i chi ddod allan o Aberaeron, mae'n llwybr gwastad ac yn addas ar gyfer pob math o feiciwr. Mae'r llwybr yma yn dilyn yr hen reilffordd gyda glannau afon Aeron ac fe welwch amrywiaeth o flodau gwyllt ar eich taith. I gychwyn y daith o Aberaeron, mae angen i chi ddilyn yr A482 o Sgwâr Alban i'r de i gyfeiriad Llambled am tua chwarter milltir ac yna troi i'r chwith i Fro Allt-y-Graig. Dilynwch y llwybr yma i gyfeiriad Llanerchaeron. I gychwyn o Lanerchaeron, gallwch barcio ym Maes Parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron. Mae yna doiledau a chaffi yno hefyd. Dilynwch yr arwyddion am y llwybr cyhoeddus yr ochr draw i'r maes parcio.

Cors Caron i Ystrad Meurig (rhan o Lwybr Ystwyth)

Mae Llwybr Ystwyth yn 20 milltir o hyd yn ei gyfanrwydd ac yn mynd o Aberystwyth i Dregaron ar hyd yr hen reilffordd, ond mae rhannau ohono'n go serth ac mae'n dilyn y briffordd mewn ambell le. Felly, rwy'n mynd i sôn wrthyh am y rhan ohono sy'n mynd o Gors Caron i Ystrad Meurig, ac sy'n addas ar gyfer teuluoedd. Mae'r darn yma o'r llwybr yn 3 milltir o hyd, yn wastad ac yn ddigon clir o'r briffordd. Y lle mwyaf addas i barcio yw ym Maes Parcio Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron ar yr ffordd o Dregaron i Bontrhydfendigaid, lle mae cyfleusterau cyhoeddus ar gael. Yn Ystrad Meurig, ceir siop a thafarn ynghyd â thoiledau, ond nid oes llawer o fannau cyfleus i barcio ar gyfer eich taith.

Dyddiau Natur

Dyma flas ar rai o'r gweithgareddau y gallwch eu gwneud gyda'r plant yn eich gerddi neu ar warchodfa natur leol.

Helfa Drysor Lliwiau Natur

Deunyddiau - siswrn, bocs dal ciwbiau iâ neu focsys wyau a cherdyn neu bapur gwahanol liwiau

1. Leiniwch waelod y tyllau yn eich bocs ciwbiau iâ neu focs wyau â darnau bach o bapur neu gerdyn o wahanol liwiau.
2. Dewiswch ardal ar gyfer eich helfa (yr ardd, parc chwarae, gwarchodfa natur, coedlan, traeth).
3. Cychwynnwch eich taith gyda'ch bocs lliwiau a gofynnwch i'r plant chwilio am ddarnau bach o Fyd Natur sy'n cyfateb i'r lliwiau yn eich bocs. Mae hyn yn ffordd dda o ddysgu am wahanol liwiau. Pan fyddwch wedi gorffen, sgwrsiwch gyda'ch plant am eich 'trysor'. Gadewch iddyn nhw ddisgrifio lliwiau, patrymau, teimlad ac aroglau'r pethau maen nhw wedi eu darganfod.

Mynediad am Ddim

Os ydych yn chwilio am fannau i ymweld â hwy am ddim dros wyliau'r haf, beth am fynd i Fferm Denmark ym Metws Bledrws? Dyma warchodfa natur sydd ar agor i'r cyhoedd. Ceir amryw o lwybrau sy'n addas ar gyfer gwthio bygi, yn ogystal â thŷ crwn yn y coed - man gwych ar gyfer picnic. Am fanylion pellach, edrychwch ar y wefan - www.denmarkfarm.org.uk

Neu beth am Goedwig Gymunedol Long Wood, Llambled? Ceir mynediad i'r maes parcio ar yr hewl gefn rhwng Llanfair Clydogau a Llanybi. Mae yna lwybr ceffylau yn mynd drwy'r goedwig. Mae'n addas ar gyfer beiciau mynydd a gellir gwthio bygi arno. Gweler Dyddiadur Clonc am ragor o wybodaeth am y gweithgareddau a drefnir ar gyfer y gwyliau. Mae ganddynt hefyd wefan sydd ar fin cael ei diweddar - www.longwood-lampeter.org.uk Cofiwch mae awgrymiadau yw'r syniadau yn yr erthygl yma ac i wneud ymwchwil eich hun cyn mentro allan gyda plant bychan.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i Theatr Felin fach i weld sioe fyw Theatr Arad Goch sef Rala Rwdins. Roedd yn sioe fywiog ac yn lliwgar iawn a cafodd y plant fwynhad mawr yno. Cafodd y plant y cyfle ar ddiwedd y perfformiad i gwrdd â'r cymeriadau ac i gael llun gyda hwy. Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn plannu llysiau yng ngardd yr ysgol. Diolch yn fawr i Mr Bracey y gofalwr am ei waith caled wrth gyd weithio gyda'r plant i baratoi'r ardd a hefyd i Mr O'Keeffe, Teifi Concrete am ei rodd hael o bridd ar gyfer yr ardd. Mae'r llysiau yn tyfu'n fendigedig ar hyn o bryd.

Daeth Rhydian o Urdd Gobaith Cymru i gynnal sesiwn sgiliau syrcas yn yr ysgol. Bu plant o bob oed yn mwynhau yn yr heulwen yn ymarfer pob math o sgiliau gwahanol. Diolch yn fawr i Rhydian am ddod atom.

Teithiodd dau aelod o staff sef Mrs Enfys Morgan a Mrs Lis Williams i Ddylun prif ddinas Iwerddon. Buont yn ymweld ag ysgol yno ac yn trosglwyddo ac yn derbyn gwaith prosiect y plant.

Daeth Arwel Jones i'r ysgol hefyd i gynnal sesiwn ymarfer Corff gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Cafwyd sesiwn fywiog oedd yn annog y plant i feddwl a chreu gemau. Diolch yn fawr iawn iddo.

Daeth cwmni ffotograffiaeth i'r ysgol i dynnu lluniau unigolion, grwpiau a hefyd llun o'r ysgol i gyd. Mae'r lluniau wedi dychwelyd yn barod i'w harchebu.

Dyma ganlyniadau diweddaraf Clwb cant yr ysgol:

Mis Ebrill - 1af Ethan Rees; 2il Gwenda Davies -Bwlchmawr; 3ydd Mineira Edwards.

Mis Mai - 1af Hafwen Davies; 2il Rhodri a Llywelyn Gregson; 3ydd Dwynwen Williams .

C.F.I Llanwenog

Ar y 3ydd a'r 10fed o Fehefin, bu aelodau'r clwb yn brysur yn ymarfer gogyfer y Rali flynyddol. Cynhaliwyd Rali'r Sir yn Nhalybont eleni ar y 15fed o Fehefin. Er bod y tywydd yn ansefydlog cafwyd llwyddiant ysgubol gan ennill y rali. Bydd croeso twymgalon i chi pan ddaw'r Rali yn ôl i Lanwenog eto y flywyddyn nesaf!

Dyma ganlyniadau'r diwrnod: Mae gan celtwyr dalent: 3ydd Gosod blodau: Sophie Jones: 3ydd Crefft: Carwyn Davies: 1af Arddangosfa'r ffederasiwn: 2ail Coganio: Enfys a Gethin Hatcher: 1af

Ar y newyddion: Cerys Lloyd, Luned Mair a Meleri Davies: 1af Her geltaidd: Meinir Davies a Sioned Fflur Evans: 2ail

Cneifio defaid: Heilin Thomas :1af, Steffan Jenkins: 2ail

Ail gyflwynwyd cystadleuaeth

Tynnu'r gelyn i'r Rali eleni. Ffurfiwyd tîm merched gogyfer y gystadleuaeth a bu'r tîm yn ymarfer yn gyson gan dderbyn yr ail wobwr ar y diwrnod. Bu'r bechgyn hefyd yn ymarfer yn gyson gan ennill y gystadleuaeth ac felly yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol.

Cafwyd cyfarfod cloi'r rali ar y 17eg o Fehefin. Rhoddodd y cadeirydd longyfarchiadau i'r holl aelodau am ei llwyddiant wrth ennill y Rali . Dymunodd pob lwc i'r aelodau bydd yn cynrychioli'r sir yn y Sioe Frenhinol sef Carwyn Davies a'i grefft, Enfys a Gethin Hatcher a'i coganio, Cerys Lloyd, Luned Mair a Meleri Davies yng nghystadleuaeth Ar y newyddion a Heilin Thomas yng nghystadleuaeth cneifio. Pob lwc i chi gyd.

Cafwyd taith ddirgel ar y 24ain o Fehefin. Cawsom daith i Aberaeron lle roedd helfa drysor yn ein disgwyl a llond bol o sglodion. Noson anisgwyl yn llawn sbort.

Cydymdeimlad

Danfwnn ein cydymdeimlad llwyraf a dwysaf at Janet, Gareth a theulu Cefnrhuddlan Uchaf ar farwolaeth tad a thadcu annwyl ym mherson Doug Silcock a oedd yn byw yn Llangeler yn ystod y mis.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i Bertie a Brenda Thomas, Maes-y-meillion a fydd yn dathlu trigain mlynedd o fywyd priodasol ar 6 Awst. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Y Gymdeithas Hŷn

Dyma ni hanner ffordd drwy tripiâu'r haf erbyn hyn. Aeth y daith ddiwethaf â ni i Gastell a Llys Tretŵr, ddim ymhell o'r Fenni, lle mae olion castell sy'n dyddio o'r 12fed ganrif, a thŷ a adeiladwyd tua 1450, hwn wedi ei adnewyddu i ddangos sut y byddai'n edrych yn y cyfnod hynny. Rhoddwyd braslun o hanes Dretŵr gan un o'r cyfeillion sy'n gweithio yno, cyn cael cyfle i symud o gwmpas,- y gegin a'r ystafell weini yn dangos yr offer a'r celfi, y neuadd fawr yn barod i'r wledd, a'r murlun yn cofnodi hanes y teulu.

Caed cyfle am luniaeth ysgafn yng Nghaffi'r Mynydd Du yn Cwmdy, cyn symud ymlaen i'r Fenni. Aeth mwyafrif yr aelodau i Eglwys y Santes Fair,- rhan o'r hen Briordy achubwyd yng nghyfnod y Dadgysylltu, gan fod cysylltiadau a pherthnasau i Harri'r wythfed yn yr ardal. Gwelwyd y cerflun hynafol oedd yn dangos coeden Jesse, a'r beddrodau hanesyddol, rhai ohonynt o deulu'r Herberts yn cysylltu nôl i Dretŵr, ac hefyd i Gastell Powys, lleoliad trip mis Mai.

Gerllaw'r Eglwys, mae hen

Sgubor y Degwm, hwn eto wedi ei adnewyddu, ond yn dyddio nôl i'r 12fed ganrif. Ar y llofft dangosir Tapestri'r Mileniwm,- gwaith godidog 24 troedfedd o hyd ac 8 troedfedd o uchder, yn cofnodi mil o flynyddoedd o hanes Y Fenni a'r cylch. Cymerodd bedair blynedd i'w bwytho gan 64 o wirfoddolwyr. Arbennig yn wir.

Cafwyd amser i grwydro i'r siopau cyn dychwelyd i'r bws, a theithio am adre. Swper ardderchog yng Ngwesty'r Plough, Rhosmaen ar y ffordd.

Bydd y trip nesaf ar Orffennaf y 10fed yn mynd i Gastell Picton ger Hwlfordd, ac yna i Ddinbych y Pysgod. Enwau i Yvonne 480590 cyn gynted â phosib.

Eglwys Santes Gwenog

Croesawyd nifer o oedolion a phlant i Noson Cwis 'Caws a Gwin' ar Fehefin 14eg. Diolch i Keith a Lynne Goodall am eu trefniadau ac yn enwedig i Keith am baratoi'r cwestiynau dyrys a difyr. Diolch i bawb a gyfrannodd wobrau raffl i sicrhau fod pawb yn mynd adref â gwobr. Cynhelir y Cwis nesaf yn yr Hydref. Croeso cynnes i bawb.

Roedd Cymanfa Ganu'r Ddeoniaeth yn Eglwys Tregaron eleni a chafwyd noson bleserus o ganu cynulleidfaoel o dan arweiniad Mrs Ceinwen Evans. Kess Heusmann oedd yr artist gwâdd ac fe gafwyd mwynhad pur wrth wrando ar ei lais arbennig. Y Parchedig Suzy Bale fu'n annerch plant yr Ysgolion Sul. Dymuniadau gorau i aelod ffyddlon yr Eglwys sef Mrs Viria Jones, Gellideg a fu'n dathlu penblwydd arbennig ar yr 22ain o Fis Mai. Pob bendith a iechyd i'r dyfodol Viria.

Ymunodd Geraint a Caroline, Llysderi gyda ffrindiau i fynd ar daith i Awstralia i gefnogi Tîm Rygbi'r Llewod. Profiad gwych a bythgofiadwy iddynt.

Llongyfarchiadau gwresog i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog - enillwyr Rali'r Sir yn Nhalybont ar Fehefin y 15fed. Da iawn wir!

Cofiwn am bawb sy'n dioddef anhwylder, a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd a ffrindiau sydd wedi colli anwyliaid. Cofiwn yn arbennig am Mr Jeff Bone a gollodd ei wraig Moira yn ddiweddar ac sydd wedi treulio cyfnod dan ofal yn Ysbyty Glangwili.

Clwb 100 yr Eglwys Mis Mehefin.

1.Mary Thomas, Ffosffald.

2.Hyw Davies, Ornant.

3. Joan Green, Llanwenog.

Clwb 100 Neuadd Drefach.

Ebrill; Bronwen Jones, Greenhill £10. Mair Davies, 1 Highmead Cottage £5.

Mai; Emyr Jones Meysydd £10.

Carys Ffion Bowen, Afallon. £5

Meh; Eirlys Jones Gellideg £10.

Denise Rickard, Cartrefle £5. Gorff; Teulu, Glynmeherin £10. Richard Edwards, Glanrhyd, £5.

Diolch

Dymuna Doreen a Gareth Davies, Dolgader, Drefach ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion dderbyniwyd gan y ddau ar ddathlu pen blwyddi arbennig yn ddiweddar.

Mae Nancy Evans, Hazelmead, Drefach yn diolch am yr holl ddymuniadau da dderbyniodd wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli.

Graddio

Llongyfarchiadau i Richard Milcoy, Llwynteg ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Electroneg o'r Coleg yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Clwb Clonc

Gorffennaf 2013

£50 rhif 358 :

Mrs Marian Morgan,
Rhyd-y-felin, Drefach.

£50 rhif 9 :

Mrs Myfanwy Bryce,
20 Penbryn, Llambled.

£25 rhif 364 :

Megan Haf Morgans,
Tangar, 12 Lôn Clychau'r Gôg,
Abergwili, Cerfyrddin.

£25 rhif 423 :

Mrs Eirlys Thomas,
Awelfa, Llanybydder.

£20 rhif 405 :

Olwen Thomas,
84 Glenroy Street, Caerdydd.

£20 rhif 218 :

Gwilym Jenkins,
Glynmeherin, Gorsgoch.

£15 rhif 249 :

Mrs Eryl Jones,
Gerlan, Greenfield Terrace,
Llambled.

£15 rhif 349 :

Iona Llyr,
17 Latimer Road, Llandeilo.

£10 rhif 271 :

Mrs Sallie Jones,
Hathren, Heol-y-Bont, Llambled.

£10 rhif 71 :

Dannie Davies,
Llaingors, Gorsgoch.

£10 rhif 31 :

Aneurin Davies,
Gelli-Aur, Rhydybont,
Llanybydder.

£10 rhif 409 :

Mrs Hedydd Thomas,
Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambled.

£10 rhif 123 :

Mrs Wendy Evans,
Parc-y-rhos, Blaencwrt,
Llanwnnen.

£10 rhif 443 :

Mrs Ann Thomas,
9 Bro Grannell, Llanwnnen.



Bu pedwar o blant yr ysgol sef Elin Davies, Owen Schröder, Owain Jones a Zachary Wroe yn cystadlu yn rownd derfynol Gêm 24 Ceredigion. Roedd y plant wedi bod yn brysur gyda help Mrs Wendy Davies yn ymarfer. Bu cystadlu brwd trwy'r bore yn Felinfach ac ar ddiwedd y pump rownd dim ond dau farc oedd yn gwahanu'r ddau dîm cyntaf. Llongyfarchiadau mawr i blant Ysgol Cwrtnewydd am ddod yn ail mewn cystadleuaeth glos iawn!

Ysgol Cwrtnewydd

Ar fore Mercher yn ystod gwyliu hanner tymor, bant â ni i Eisteddfod yr Urdd. Roedden ni'n cystadlu yng nghystadleuaeth y gân actol ac yn ymddangos ar lwyfan y brifwyl ben bore. Ond, er ein bod ni wedi gorfod colli diwrnod o'n gwyliu, doedd dim gwahaniaeth gan yr un ohonom oherwydd llwyddwyd i ennill yr ail wobwr. Roedd pob un ohonom yn hapus iawn.

Cafodd y gân actol wahoddiad i berfformio ym Mhroms Ceredigion yng nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Braf hefyd oedd gweld disgyblion o'r ysgol sef Elin Davies, Madeleine Smith, Leah Kersey, Arwel Williams ac Owen Schröder yn aelodau o'r gerddorfa a chôr blwyddyn 6 Ceredigion. Cafwyd noson o wledd a phawb wedi mwynhau.

Yn dilyn llwyddiant y gân actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, penderfynwyd bod yn rhaid cael noson i ddathlu! Cawsom noson ddymunol iawn yn nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch a daeth plant, rhieni, athrawon a ffrindiau i ymuno yn yr hwyl. Cafwyd bwyd blasus iawn a braf oedd cael noson i sgwrsio a llawenhau. Hoffai'r staff ddiolch o galon am y rhoddion gwerthfawr a dderbyniwyd oddi wrth Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Rydyn ni fel ysgol yn ran o brosiect comenuis ac mewn cysylltiad ag ysgolion yn Sbaen, Ffrainc, Iwerddon a hefyd ysgol Llanwenog. Un gweithgaredd a oedd yn rhaid i ni wneud oedd paratoi pryd o fwyd iachus gan ddefnyddio cynnyrch lleol. Treuliyd rhan o fore yn coginio. Y prif gwr oedd cawl cennin a thatws gyda roliau bara ac yna fel pwddin fe wnaethom baratoi smoothie a bisgedi. Ar ddiwedd y dydd cafodd pawb gyfle i'w profi. Blasus iawn!

Aeth dau o aelodau staff yr ysgol sef Mrs Gwyneth Davies a Mrs Carol Bundock i ymweld ag ysgol

yn Nulyn fel rhan o'r prosiect Comenuis. Gwelwyd fod tipyn o wahaniaeth rhwng ysgol St Carlos ag ysgol Cwrtnewydd a braf oedd cael y cyfle i gymharu arferion gwahanol wledydd.

Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn derbyn gwersi nofio ym mhwl nofio Llanbed yn ystod tymor yr haf. Mae'r profiad yma yn wych ac mae'n braf gweld y plant yn datblygu sgiliau nofio gwyh.

Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i gael cyfle i gael gwersi coginio dan ofal medrus Mrs Jo Fice ein cogyddes. Diolchwn iddi am roi o'i hamser i helpu'r plant.

Treuliodd ymgynghorwyr y sir ddiwrnod yn yr ysgol yn darganfod pa mor effeithiol mae rhifedd yn cael ei ddysgu yn yr ysgol. Buon nhw'n sgwrsio gyda'r plant ac yn edrych ar eu llyfrau.

Daeth dwy ferch o ysgol Bro Pedr ar brofiad gwaith i Ysgol Cwrtnewydd sef yr efeiliaid Sophie a Lauren Jones. Roedden nhw'n gyn ddisgyblion yn yr ysgol a braf oedd cael eu croesawu yn ôl atom. Bu'r ddwy yn brysur iawn drwy'r wythnos yn arsylwi ar wersi ac yn cynorthwyo yn y ddau ddosbarth.

Daeth myfyrwraig o goleg y Drindod i Ysgol Cwrtnewydd am gyfnod o dair wythnos a hanner. Treuliodd Hayley McClland ei hamser yng nghyfnod Allweddol 2 yn hyfforddi i fod yn athrawes. Diolch i chi Miss McClland a chroeso i chi alw nôl yn yr ysgol unrhyw adeg i'n gweld.

Cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin ac roedd pawb yn gorfoleddu pan welsant yr haul yn tywynnu arnom. Bu'r tri tîm yn cystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd ond y tîm glas a enillodd gyda'r tîm melyn yn ail a'r tîm coch yn drydedd. Capteiniaid y tîm buddugol oedd Owain Jones a Hanna Davies. Cyflwynodd Miss Heddwyn Davies darian Carwyn a Meinir Davies i'r tîm buddugol.

Owain Jones oedd y bachgen â'r mwyaf o bwyntiau ac yn ennill tarian goffa Stephen Sutcliffe. Enillydd tarian goffa Ieuan Jones oedd Elin Davies. Gweler lluniau ar dudalen 24.

Daeth P.C Simon Griffiths i'r ysgol i sgwrsio â ni ynglyn â pheryglon cyfathrebu ar y we. Roedd ganddo fideo pwrpasol iawn ac roedd pawb wedi dysgu tipyn oddi wrtho. Buodd yn sôn wrth y plant am sut i gadw'n saff dros wyliau'r haf.

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i Theatr Felinfach i weld sioe Rala Rwdins. Perfformiad oedd hwn gan Theatr Arad Goch ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw!

Mabolgampau'r Pentref

Cofiwch y bydd mabolgampau pentref Cwrtnewydd yn cael eu cynnal ar gaeau'r ysgol ar ddydd

Sadwrn, Gorffennaf 13eg am 1 o'r gloch. Llywyddion y dydd fydd Olga a James Thomas, Brynderw. Croeso cynnes i bawb.

70 oed

Pen-blwydd arbennig i Emlyn Davies, 4 Heol-y-Bryn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ystod diwrnodau cyntaf y mis. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu!!

Gwellhad Buan

Danfown ein cofion at Gerwyn Davies, Tynfron sydd wedi bod yn anhwylys yn ddiweddar.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Alex a William, Lloft fach ar enedigaeth merch fach – Ellie Joy a phob dymuniad da i chi fel teulu.

Llangybi



Rhiannon Roberts a phlant Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Y Dderi gyda'u murlun newydd

Sarn Helen



Bu Sarn Helen yn cystadlu yn y ras gyfnewid cestyll Cymru. Mae'r ras yn dechrau am 10-30 y.b. ger castell Caernarfon, gyda noson o gwsg yn y Drenewydd, ac ail ddechrad fore Sul am 7 o'r gloch ac yna gorffen yn y prynhawn yng nghastell Caerdydd. Mae yn 210 o filltioredd dros 20 o gymalau a chwechedeg un o glybiau yn cystadlu. Ar ddiwedd dydd Sul roedd Sarn Helen wedi gorffen y ras mewn 23 awr 15 munud a 59 eiliadau, ac yn y safle 17fed. Canlyniadau ardderchog i'r clwb.

Kevin Regan ddechreodd y daith o gastell Caernarfon i Pen y Gores mewn awr 07 munud a 35 eiliad, i gastell Cricieth Tim Jones awr 07 munud 18 eiliad, i Maentwrog Teifion Davies awr 32 munud 48 eiliad, Maentwrog i gastell Harlech Nigel Davies awr 08 munud 36 eiliad, Barmouth Simon Hall awr 04 munud 55 eiliad, Dolgellau Calvin Williams awr 15 munud 34 eiliad, Dinas Mawddwy Michael Davies awr 05 munud 09 eiliad, Foel Dylan Lewis awr 08 munud 13 eiliad, Llanfair Caereinion Eric Rees awr 02 munud 01 eiliad, a hanner marathon diwethaf y dydd i'r Drenewydd oedd Gethin Jones mewn awr 27 munud 47 eiliad.

Drenewydd i Lanbadarn Fynydd yw'r cymal cyntaf fore Sul am 7 o'r gloch a thaith o hanner farathon a Glyn Price yn gorffen mewn awr 15 munud 03 eiliad, i Grossgates Llewelyn Lloyd awr 09 munud 43 eiliad, Llanfair Ym Mualt Dee Jolly awr 10 munud 45 eiliad, Drovers Arms (copa Epynt) Steven Holmes awr 01 munud 21 eiliad, Aberhonddu Daniel Hooper 1 awr 22 munud 22 eiliad, Storey Arms Andrew Abbott 56 munud 41 eiliad, Merthyr Tydfil Tony Hall 01 munud 30 eiliad, Abercynon Helen Willoughby awr 06 munud 24 eiliad, Nantgarw Caryl Davies 59 munud 29 eiliad, a'r cymal ddiwethaf i gastell Caerdydd oedd Mark Dunscombe ac yn gorffen mewn awr 12munud a 54 eiliad.

Bu rhai o'r rhedwyr yn cystadlu mewn marathon a hanner marathon yn goedwig Coed y Brenin, ger Dolgellau. Canlyniadau'r hanner farathon: 124 Caryl Davies 2 awr 11 munud 33 eiliad, 156 Terry Jones 2 awr 19 munud 04 eiliad, a'r marathon 26ed Steven Holmes 3 awr 49 munud 09 eiliad, a Gudrun Jones 3 awr 07 munud a 08 eiliad, Nigel Davies yn rhedeg ei farathon gyntaf mewn 4 awr, 21 munud 11 eiliad a safle 69.

Campws Iau Ysgol Bro Pedr

Derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 hyfforddiant cymorth cyntaf ar sut i gynorthwyo person sy'n cael trawiad ar y galon. Diolch i Mr John a Mr Thomas am eu hyfforddi. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r disgyblion yn ystod gwasanaeth ysgol gyfan.

Bu aelodau hŷn y Cyngor Eco a'r Cyngor Ysgol ar ymweliad yn ddiweddar â chwmni LAS yn y dref. Cawsant gyfle i fynd o gwmpas i weld sut yr oedd deunyddiau'n cael eu hailgylchu a chyfle i ofyn cwestiynau. Diolch i Miss G Jones am drefnu ac i staff LAS am y croeso.

Bu tair disgybl o'r ysgol yn perfformio gyda cherddorfa'r Sir yng nghyngerdd y "Proms" yn Neuadd Fawr Aberystwyth sef Lucy Hill, Aisvarya Sridar a Bea Cassidy. Da iawn chi ferched am wneud eich gwaith mor arbennig. Rhaid llongyfarch Lucy Hill ar gael yr anrhydedd o fod yn brif arweinydd y gerddorfa ar y noson. Da iawn ti Lucy.

Bu disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 ar drip i Abertawe'n ddiweddar gan fwynhau mynd o gwmpas Stadiwm y Liberty a gan fod bargeinion yn y siop yno daeth nifer adref â llond bag o nwyddau. Aethpwyd ymlaen wedyn i wyluo sioe "The Gruffalo's Child" yn Theatr y Grand.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 y cyfle i wyluo sioe "Rala Rwdins" yn Theatr Felinfach. Cawsant amser bendigedig.

Bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 allan yn cael gwersi beicio gan godi ymwybyddiaeth hefyd o ddiogelwch ar y ffyrdd.

Yn ystod y tymor bu disgyblion blwyddyn 1 allan yn cael gwersi i godi eu hymwybyddiaeth wrth groesi'r heol. Diolch i Evana am eu hyfforddi.

Cynhaliwyd ein mabolgampau â'r haul yn gwenu a phob disgybl yn cael cymryd rhan. Gwelwyd y disgyblion yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau megis rhedeg, taflu pêl, naid hir, naid uchel, ras rwystrau. Diolch i'r staff i gyd am baratoi'r plant ac i Mr John a Mr Roderick am drefnu'r dydd ac i Mark Griffiths am ei waith yn sylwebu'n fyw yn yr ysgol ac ar y ŵe. Ar ddiwedd y bore Dewi oedd ar y blaen, Steffan yn ail a Phedr yn drydydd. Derbyniodd capteiniaid y tî buddugol sef Livvy a Sean darian yn rhoddedig gan y Cyngh Margaret Davies Evans. Ar ddiwedd y prynhawn Dewi oedd yn fuddugol gyda Pedr yn ail agos a Steffan yn drydydd. Cyflwynodd Mr Williams darian i gapteiniaid y tî buddugol sef Bryn a Samantha. Cipiodd Iestyn Owens dlws Mabolgampwr y flwyddyn a Lydia Chen Mabolgampwraig y flwyddyn. Llongyfarchiadau.



Aisvarya, Lucy a Bea o Ysgol Bro Pedr a fu'n perfformio gyda cherddorfa'r Sir yn y Proms yn Aberystwyth. Lucy hefyd oedd prif arweinydd y gerddorfa. Da iawn chi ferched.



Mae cywion bach wedi deor ym mlwyddyn un yn Ysgol Bro Pedr.

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu'r arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i:

Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.
Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llanbedr Pont Steffan 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau / commencing 1af o Orffennaf 2013 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
1st July 2013 Thereafter annually on 1st July

nes y derbynwch rybudd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice with me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:



Enw: **Shaun Hall Jones**
Oed: 26
Pentref: Parc Y Rhos
Gwaith: Ffarmwr
Partner: Megan Evans
Teulu: Mam (Sheila), Dad (Barrie) a Sophie.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd i'r ysbyty i gwrdd â fy chwaer newydd Sophie pan oeddwn yn 10 oed.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Teenage Mutant Ninja Turtles.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Gweithio'n galed ac i fod yn uchelgeisiol.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Backstreet Boys - dwi'n hoff o ganeuon 'boybands'!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Aelod o 'boyband'!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Cymdeithasu dros bryd o fwyd gyda ffrindiau.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Zara'r ci - mae hi'n byw bywyd brenhines!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Y gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â dyfodol y busnes.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
'Farmers tan!'

Y peth gorau am yr ardal hon?
Byw yn agos i deulu a ffrindiau.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pawb yn gwybod busnes pawb!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person Diog!



Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Treulio awr mewn sêl defaid Lleyn.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Corynod!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Mae hyn yn ddigwyddiad dyddiol - dw i braidd yn ddiamynedd!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddiuno ynddo yn y bore?
Mewn iglw!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Gadael fy swydd fel athro i redeg y ffarm.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg ar ôl defaid.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
'Look after the pennies and the pounds will look after themselves' - un o hoff ddywediadau dad!

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Byddai'n well gen fi beidio gwybod!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Evoque ac Izuzu.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Bear Grylls! Achos bydden i ddim eisiau aros 'na'n rhy hir - dwi ddim yn foi 'campo'!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
'Chinese'

Beth yw dy ddiod arferol?
Diet Coke.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Mae'n llawn o fwyd M&S. Mae Megan yn gwario lawer gormod yna!

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Cneifio - dwi'n llawer rhy araf.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Farmers Weekly a Farmers Guardian.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Mynd ar fy ngwyliau.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Tywydd BBC a Twitter.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
0 - rwy'n casáu Facebook!

Hoff gân ar dy ipod?
Maria, Maria gan Carlos Santana.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Dim - Mae Megan wedi ei lenwi gyda 'Soaps', RSPCA Animal Rescue a TOWIE!

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Taldra!

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Zara'r ci!

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Athro mewn ysgol gynradd.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Peiriannau i'r ffarm.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?
Dad. Mae e' wedi rhoi llawer o gyfleoedd ac arweiniad i mi.

Y gwyliau gorau?
Singapore ac Ynys Bintan.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Seland Newydd, Awstralia a De Affrig. Yn ddelfrydol i wylïo'r Llewod gyda'r bois!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Gosod y larwm.

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw: _____
Cyfeiriad: _____
Codi post: _____
Rhif Ffôn: _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				7		
5	8			6		2
6	2		9			3
		5	1	2		
		8			6	
			8	7	9	
1				8		9
9			4		3	8
		2				

Atebion Swdocw mis Mehefin:

Llongyfarchiadau i **Betty Prydderch, Tyngrug, Llanllwni** a diolch i bawb arall am gystadlu: Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Eirwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Delyth Edwards, Deulan, Llansawel; Ellie Davies, Lake View, Abergwili a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

6	8	5	4	2	7	1	9	3
3	7	9	8	1	5	2	6	4
4	1	2	3	9	6	5	7	8
1	6	3	7	4	8	9	5	2
8	5	7	2	6	9	4	3	1
2	9	4	1	5	3	7	8	6
7	2	6	5	8	1	3	4	9
5	4	8	9	3	2	6	1	7
9	3	1	6	7	4	8	2	5



Gethin Morgan, Bro'r Dderi yn ennill Cwpan barnu defaid Torddu dan 16oed, Cwpan yr unigolyn â'r marciau uchaf a Chwpan Barnu Stoc dan 16oed



Steffan Jenkins a Heulyn Thomas o Lanwenog yn ennill y gystadleuaeth Cneifio.



Carwyn Davies, Llanwenog yn ennill y Gystadleuaeth Crefft.



Tîm Llanwenog yn ennill 'Ar y Newyddion' - Meleri, Luned a Cerys.



Cystadleuaeth coginio pryd o fwyd – yn gyntaf oedd Gethin a'i chwaer Enfys Hatcher, Llanwenog.



Tîm Bro'r Dderi yn ennill Ras y Siarlot Geltaidd.



Luned Mair, Llanwenog a Nia Medi Jones, Llanddewi Brefi yn gydradd gyntaf ac yn derbyn cwpan yr Ysgrifennydd Gorau.



Mike a Christine Wilson, Llywyddion Carnifal Llanybydder gyda Elin Evans, Brenhines y Carnifal gyda Hana Jones a Chloe Jenkins (Morwynion), Osian Jones (Tywysog) ac Elin Morgan (Tywysoges).



Ffermwr Ifanc y Flwyddyn - Arwel Jenkins, Llanwenog; Brenhines y Sir 2013-14 - Mererid Davies, Pontsian â'i morwynion (o'r chwith) Gwawr Thomas, Pontsian; Bethan Roberts, Mydroilyn; Luned Mair, Llanwenog a Nia Medi Jones, Llanddewi Brefi

Digwyddiadau lleol



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn dathlu bod y clwb wedi cyrraedd saithdeg oed gyda chinio yng Ngwesty Tyglyn Aeron.



Aelodau Côr Corisma yn cyflwyno sic am £1,200 i elusen Sefydliad y Galon, arian a godwyd mewn noson elusennol a gynhaliwyd gan y côr gyda chymorth disgyblion Ysgolion Bro Pedr a Charreg Hirfaen. Swyddogion y côr Carys Lewis, Lena Daniel a Meinir Jones sy'n cyflwyno'r sic i swyddogion cangen Llanbed a Llanybydder o Sefydliad y Galon Dave Smith, Anne Davies a Jennie Bracher. Dymuna'r côr ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y noson lwyddiannus.



Aelodau a chyn-aelodau Cangen Merched y Wawr Llambod ynghyd â Gill Griffiths, Llywydd Cenedlaethol, Tegwen Morris Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Elisabeth Evans, Swyddog Datblygu Ceredigion yn dathlu penblwydd y gangen yn ddeugain oed gyda chinio yng Ngwesty Tyglyn Aeron yn ddiweddar.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan
Awdurdod y Gwasanaethau Arianol, yng ngyrfaeddau cyfngu yswiriant,
o dan Rhif Cofrestru 305035.

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwyl!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp
Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa




Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

01570 422955

01570 422232

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod

01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrim, Offer llaw a
phwercus, Polion a thraciau lleini,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiniannau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llambod Pont Steffan

01570 423156

Gorsgoch

Gwellhad

Braf oedd clywed bod Jean Evans
ar wellhad ac adref yn Llwyn-y-gog
ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Gwawr
Hatcher, Cefn Hafod, Lauren a
Sophie Jones, Awel y Gors ar basio
eu prawf gyrru yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i'r dair hefyd am
eu llwyddiant fel rhan o gôr Cerdd
dant Ysgol Bro Pedr â dderbynniodd
y 3ydd wobwr yn Eisteddfod yr Urdd.

Roedd Gwawr hefyd yn aelod o'r
grŵp llefaru a dderbynniodd yr 2ail
wobr, a pharti cerdd dant Aelwyd
Llambod a ddaeth yn 3ydd.

Llongyfarchiadau mawr i Gwawr
Hatcher am ei hethol yn ddirprwy
Brif ferch Ysgol Bro Pedr am y
flwyddyn sydd i ddod. Mae hwn yn
anrhydedd mawr. Pob Lwc i ti.

Diolch

Dymuniad Jean Evans, Llwyn-
y-gôg yw datgan ei diolch cynnes
i'w theulu a'i ffrindiau am eu gofal
amdani yn dilyn ei llaw driniaeth
yn Ysbyty Glangwili yn ystod
yr wythnosau diwethaf. Mae'n
gwerthfawrogi'r sylw boed trwy
air, anrhegion, blodau neu'r gofal
dyddiol mae'n parhau i'w dderbyn.
Diolch o galon i bawb.

Sicrhewch eich newyddion yn y
papur hwn. Peidiwch â disgwyl
i rywun arall ei gynnwys ar eich
rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn
ar ôl i CLONC ymddangos.



Priodwyd Ceredig mab
ieuengaf Tony ac Eirina Sisto,
Blaenauwenog, Gorsgoch a
Carys, unig ferch Gwilym a Gaenor
Morgan, Gelliaur, Bronwydd yng
Nghapel Cwmdwyfran ar Sadwrn
Ebrill 20fed.

Diolch yn fawr i:
C.Ff.I. Llanwenog -
£100.00

Yr Hedyn Mwstard,
Llambod - £20.00

Merched y Wawr
Y Dderi - £10.00

am eu cefnogaeth
ariannol tuag at goffrau
cynhyrchu papur bro
CLONC.
Gwerthfawrogn hyn yn
fawr iawn.

Cellan



Cyflwynydd y dyfodol

Llongyfarchiadau i Hari Butten o Gellan am ennill 'Ipod shuffle' yng
nghystadleuaeth gweithdy radio yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro. Gwnaeth
Hari ennill y gystadleuaeth am y cyflwynydd gorau a'r beirniad oedd un o
gyflwynwyr radio Cymru – Magi Dodd.

Merch Fach

Llongyfarchiadau i Rhys a Rhian, Bayliau ar enedigaeth merch fach, Nia
Undeg. Llongyfarchiadau hefyd i Bleddyn ag Ann, Cnwcyfallen ar ddod yn
famgu a tadcu am y tro cyntaf. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Pentrebach

Diolch

Dymuna Joy, Huw a'r teulu
ddiolch o galon i berthnasau,
cymdogion a ffrindiau am
bob arwydd o gydymdeimlad
a estynnwyd iddynt yn eu
profedigaeth. Derbyniwyd
cyfraniadau er cof am Iwan at
apêl Sefydliad Prydeinig y Galon
ardal Llanybydder a Llambod
ac mae'r teulu am ddatgan eu
gwerthfawrogiad diffuant i bawb
am eu cyfraniadau hael. Roedd y
cyfanswm yn £955.

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Margaret, Fred a'r teulu,
18 Bro Teifi, Alltyblaca ddiolch
am bob cefnogaeth a ddangoswyd
i Kathleen yn ystod ei salwch.
Hefyd gwerthfawrogi yn fawr
iawn pob arwydd o gydymdeimlad
mewn cardiau, llythyron blodau a
galwadau adderbyniwyd yn ystod eu
profedigaeth o golli Kathleen.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Elin a
Gary Watkins, Caedabowen yn eu
profedigaeth diweddar o golli tad
annwyl ym mherson Mr John Cynwil
Williams o Ffaldybrenin.

Cwmsychpant

Pen-blwydd Arbennig

Ar ddiwedd mis Mehefin dathlodd
Deian Ryder, Tyngrug-ganol ei ben-
blwydd arbennig. Gobeithio dy fod
wedi mwynhau'r diwrnod.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad
dwysaf llwyrfa â Carol a Dorian
Rees, Maesllwyd a'r teulu yn dilyn
marwolaeth mamgu a hen-famgu
annwyl a oedd yn byw ym Mhentre'r
Bryn.

Silian

Diolch

Dymuna Mrs Bethan Morgan,
Murmur-y-nant, Silian ddiolch i
bawb am y cardiau a'r anrhegion a
dderbynniodd ar achlysur dathlu ei
phen-blwydd yn 80 oed ar Fai 31ain
eleni.

Sefydliad Prydening y Galon
Cangen Llanybydder a
Llambod

Noson Bingo

yng Nghlwb Rygbi

Llanybydder

15 Hydref 2013 am 8 yh.

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Tref Llanbedr Pont Stffan

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris;

Cynghorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Ebrill 2013 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Selwyn Walters.

Cafwyd cyflwyniad gan Annie May, Cyfarwyddwr Theatr Ieuenticid ac Ysgol Lwyfan Llanbedr Pont Steffan.

Dosbarthwyd manylion trefniadau Sefydl'r Maer ar 3ydd o Fai.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar yr Arolwg Drafnidiaeth, maes parcio'r Cwmins, cyflwr y palmentydd ar Ffordd y Porthmyrn, cyflwr y palmentydd gerllaw'r Ddeintyddfa at y Cyngor Sir.

Diolchwyd am gefnogaeth y Cyngor a phenodwyd dau gynrychiolydd o Gyngor y Dre i'r pwyllgor Amgueddfa i Lamberd.

Mae'r cynllun ar fin ei gwblhau a phlenir y coed yn y man.

Mynychodd y Maer a'i ddirprwy gyfarfod rhanbarthol 'Un Llais i Gymru' ar 24 Ebrill 2013. Trafodwyd cynlluniau y gellid eu defnyddio gan 'Un Llais i Gymru' i ddangos arfer dda a chrybwyllwyd cynllun Parcyfelin. Ymhlith y pynciau eraill a drafodwyd yr oedd Gofalwyr ym maes Iechyd, Swyddfeydd Post, Cylioedd Chwarae lleol.

Penderfynwyd cefnogi: Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan, Ras yr Iaith, Theatr Ieuenticid ac Ysgol Lwyfan Llanbedr Pont Steffan.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Mai 2013 am 8.00yh.

Cyflwynwyd mantolen flynyddol i'r aelodau. Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol, a chynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30 yh.

Cadeirydd: Tom Bowen; Is-

gadeirydd: Eric Davies; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Roedd y Cwnstabl Eleri Morgan (Bonning) yn y cyfarfod a dymunwyd priodas dda iddi. Soniwyd am y tarw ar y mynydd. At hyn roedd cwyn am gerbydau yn parcio ar yr hewl ger Greenhill ac yn creu anhawster i gerbydau eraill.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies.

Roedd cwmni RES wedi penderfynu apelio yn erbyn dyfarniad y Cyngor Sir ar bwnc codi melinau gwynt ar Fynydd Llanllwni. Bydd y gwrandawriad ym mis Hydref.

Nid oedd y Clerc wedi derbyn ymateb i ymholiad a fyddai yn bosib danfon y wybodaeth am geisiadau cynllunio trwy e-bost i Linda Evans a'r Clerc. Penderfynwyd cysylltu â'r Prifweithredwr Mark James ac Eifion Bowen am ymateb.

Roedd copïau o CL12 wedi eu derbyn gan y Clerc.

Yr oedd Tony Williams wedi ymweld â'r safle ond nid oedd y Cyngor Sir yn bendant pwy oedd yn berchen ar y palmant ger y ffens y tu allan i'r siop. Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr i ymateb trwy nodi bod y Cyngor Sir wedi rhoi tarmac yno yn y gorffennol.

Cynhaliwyd y Cinio Blynnyddol nos Wener 12 Ebrill 2013 yn y Belle Vue. Diolchwyd gan y Cadeirydd am ginio bendigedig.

Diolchwyd i'r aelodau am gasglu sbwriel eleni eto a diolchwyd i'r Belle Vue unwaith yn rhagor am eu cefnogaeth.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r aelodau.

Pecyn ymgeisio. Yr oedd y Cyngor Bro ac Ysgol Llanllwni wedi gwneud cais i am balmentydd o fewn y plwyf

unwaith yn rhagor.

Yr oedd Linda Evans wedi gwneud ymholiadau ac yr oedd y siec o £150.00 yn mynd i dalu am yr ail wobwr am barti llefaru o hyd at 16 o leisiau yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Caerfyrddin 2014.

Penderfynwyd cefnogi Chwarae yn y Goedwig; Cffi Llanllwni - £250.00.

Penderfynwyd yn unfrydol i anfon llythyr o longyfarch yn dilyn y llwyddiant yn rali Sir Caerfyrddin a chipio'r wobwr gyntaf yn yr adran Iau.

Penderfynwyd yn unfrydol gan yr aelodau y byddai Linda Evans yn gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir am osod seddi a photiau blodau o fewn y plwyf yn ystod y flwyddyn nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Gorffennaf 2013 am 8yh.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: Daniel Boyle
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor yn Ysgol y Dderi ar 22 Mai. Trafodwyd problemau trafnidiaeth a pharcio ger yr ysgol.

Roedd angen hysbysfwrdd yng nghanol y pentref ac angen ail-leoli'r blwch postio a'i osod ger yr hysbysfwrdd.

Doedd dim rhagor o wybodaeth ar gael am yr hen ysgol yn Silian.

Derbyniwyd cais cynllunio am felin wynt yn Penbryn-mawr.

Bydd Daniel Boyle ac Odwyn Davies yn sefyll fel cynrychiolwyr ar bwyllgor Un Llais Cymru.

Roedd y goeden eirin wedi'i phlanu, cystadleuaeth y plant wedi'i chynnal ond byddai rhaid aros am y plac.

Diolchwyd i'r cymwynaswr a roddodd hybysfwrdd yng nghysgodfan Silian.

Mae'r blwch halen a oedd ger Tanlan wedi diflannu a'r heddlu'n gwneud ymholiadau.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Mae hi wedi bod yn fis prysur yn y Cynulliad, gyda nifer o faterion iechyd dan ystyriaeth, ac hefyd ymgais i leddfu rhywfaint ar y straen mae siopau bach y stryd fawr yn diodde ohono ar y funud. Mae siopau annibynnol yn allweddol i ffyniant ein trefi, ac un o'r pwysau mwya sydd arnynt yw trethi busnes. Rwy' wedi bod yn gweithio efo busnesau yn Aberteifi a threfi eraill, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ein cynllun i roi gostyngiad i fusnesau bychain. Mae cynllun tebyg yn yr Alban, a byddai'n dipyn o gymorth pe bawn yn medru gwneud rhywbeth yng Nghymru hefyd.

Cefais hefyd y cyfle i fynychu dipyn o ddigwyddiadau o gwmpas y sir. Diddorol oedd mynd i agoriad llwybrau newydd ger Ystrad Fflur. Mae'n fenter gloddiw, a diolch i archaeolegwyr o Brifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbed, ynghyd â Cadw, am ddod at ei gilydd i wneud y mwya o dreftadaeth gyfoethog yr ardal a dangos sut y cafodd tirwedd ei liwio gan fywyd yr Abaty yn y gorffennol. Achlysur diddorol arall oedd y barbeciw a gynhaliwyd yn Nhalybont gan y rheiny oedd wedi dioddef yn y llifogydd llynedd i ddiolch i'r rheiny a fu'n helpu. Rwy'n dal i weithio efo'r gymuned yno ac mewn llefydd eraill yn y sir i geisio sicrhau y gallwn osgoi'r fath niwed os daw dilyw yn y dyfodol.

Mae'r haf hefyd yn gyfnod lle mae talentau pobl ifanc yn cael eu harddangos i'r eithaf. Treuliais gyfnod yn Eisteddfod yr Urdd ym Moncath, lle cafodd nifer o aelodau a grwpiau o Geredigion lwyddiant nodedig. Hefyd bwm yn rali'r Ffermwyr Ifanc yn Nhalybont. Mae'n drawiadol y gwaith paratoi sy'n mynd mewn i'r trefniadau a'r cystadlaethau. Roedd y safon yn uchel iawn, a llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog am ddod i'r brig eleni.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adailadau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.

Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llanbed

01570 422895

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Ar Nos Lun Mehefin 3ydd cyfarfu y sefydliad yng Ngwesty'r Grannell. Estynodd ein llywydd Mrs Avril Jones groeso cynnes i bawb a dymunodd wellhad buan i Mrs Irene Jackson a Miss Elsa Thomas a'u bod yn hyfryd eu gweld yn bresenol. Yna cawsom wybodaeth am Gyfarfod Blynnyddol Sefydliad Ceredigion gan Mrs Joyce Flaxman - hanes diddorol iawn, a chyfeiriodd fod pob 'resolution' wedi eu cymeradwyo. Cyflwynodd ein llywydd y wraig wadd sef Mrs Erica Davies o 'Gerddi'r Grannell'. Cafwyd arait h ganddi yn sôn fel roedd hi a'i gŵr wedi dod i'r ardal ac ehangu'r gerddi i'r safon uchel prydferth y maent i'w gweld heddiw. Hefyd daeth â nifer fawr o blanhigion gyda hi ac esboniodd sut i'w tyfu a'u maethu. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwen Davies. Mrs Glenys Jones a Mrs Gwen Davies oedd wrth y te. Enillwyd y gystadleuaeth an 'bot blodyn pertaf' gan Mrs Ceinwen Roach gyda Mrs Alice Davies yn ail a Irene Jackson yn drydydd. Enillydd y raffl oedd yn rhoddedig gan Mrs Glenys Jones oedd Mrs Jean Jones.

Pwyllgor Lles Llanwnnen

Bu cyfarfod o'r pwyllgor yn Mis Mai gyda Mr Haydn Richards yn y gadair. Penderfynnwyd ar wibdaith yr haf, sef taith i'r gogledd, i farchnad Machynlleth ac yna am Ddolgellau, Tywyn ac Aberdyfi. Penderfynwyd mynd ym Msi Medi gan fod ein gwibdaith y flwyddyn diwethaf yn Medi mor llwyddiannus. Y dyddiad a benodwyd yw Medi 18fed. Fydd posteri o amgylch y pentref maes o law. Enwau i Mr Haydn Richards ar 480279, Mrs Gwen Davies ar 481152 neu Mrs Ann Hughes ar 422654.

Bydd y bws yn gadael Llambled am 8.45y.b. a Llanwnnen am 9.00y.b. Nodwch y dyddiad yma yn eich dyddiadur, ac edrychwn ymlaen at eich presenoldeb.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Emyr Evans, Bro Llan (Garej Cribyn) a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Orffennaf 28ain. Mwynha yr achlysur.

Ysgol Llanwnnen

Diolch yn fawr iawn i rieni a ffrindiau'r ysgol a fu wrthi'n plannu blodau ac yn tacluso tir yr ysgol. Rydym yn ffodus iawn o'ch cefnogaeth.

Cafwyd noson arbennig yn y Grannell gyda Dewi Pws a Dafydd Hywel a phawb wedi mwynhau mas draw. Diolch o galon i'r Grannell am drefnu ac i Sue a Siriol am eu cyfraniad hael.

Buom yn ffodus o gwmni Joseph Jenkins o Ysgol Bro Pedr a Gwenllian Llwyd o Ysgol Dyffryn Teifi a fu ar brofiad gwaith yn yr ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd yn eich cwmni a phob dymuniad da ichi yn y dyfodol.

Braf iawn oedd croesawu nifer o gyn-ddisgyblion Llanwnnen sydd bellach ym mlwyddyn 7 ym Mro Pedr yn ôl i'r ysgol i drafod gyda blwyddyn 6. Roedd yn gyfle da i ddisgyblion blwyddyn 6 holi cwestiynau a dod i wybod mwy am eu hysgol newydd.

Mae Miss Mattie Evans hefyd wedi bod yn ymweld i ddysgu gwers Wyddoniaeth i'r disgyblion er mwyn iddynt gael blas ar addysg uwchradd.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol yn ddiweddar a chafwyd prynhawn bendigedig yn yr heulwen. Gwnaeth pob disgybl eu gorau glas ym mhob ras a champ, gyda phawb yn cael hwyl. Diolch i ffrind da i'r ysgol sydd yn flynyddol yn rhoi'r rhubanau hardd ac i Mrs Lynwen Jenkins am roi a chyflwyno'r medalau i fuddugwyr pob blwyddyn. Diolch i rieni, ffrindiau a chyn-ddisgyblion yr ysgol am gefnogi'r mabolgampau.

Diolch hefyd i Ieuan Davies a Gwyn Thomas am dorri porfa'r cae ar gyfer y mabolgampau.

Da iawn i Holly Cooper a fu'n chwarae'r ffidil yng ngerddorfa'r sir yn y proms blynnyddol yn Aberystwyth.

Mwynhaodd dosbarth y babanod daith i'r theatr yn Felinfach i weld sioe Rala Rwdins yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau yng nghwmni Rwdlan a'i ffrindiau.

Mae cryn edrych ymlaen gan y bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â gwerysll yr Urdd Caerdydd ddiwedd Mehefin, gobeithio y bydd pawb yn mwynhau.

Mae Mrs Lynwen Jenkins wedi bod yn cynnal clwb chwaraeon Campau'r Ddraig yn wythnosol yn yr ysgol ers sawl blwyddyn, a diwedd Mehefin bydd yn cynnal ei 100fed sesiwn gyda phlant Llanwnnen. Rydym yn ddiolchgar iawn Lynwen am yr ymroddiad i'r ysgol a diolch am yr holl sgiliau a ddysgodd y disgyblion yn ystod y cyfnod hyn.

Graddio

Llongyfarchiadau i Mrs Debbie Griffiths, 2 Pantyrnollen sydd wedi derbyn gradd BSc mewn Seicoleg o'r Brifysgol Agored. Da iawn.

Hefyd i Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace ar ennill gradd BSc mewn Mathemateg o Goleg Prifysgol Aberystwyth. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd newydd gyda Price Water House Coopers yng Nghaerdydd.

Llanfair Clydogau



Priodas

Ar Mai 25ain, diwrnod braf a heulog, bu priodas brydferth yn ein pentref ni, pan briododd Anwen Jones a Jonny Bell yn Eglwys Santes Fair. Merch teulu Noyadd yw Anwen wedi ei geni a'i magu yn y pentref. Mae Jonny yn dod yn wreiddiol o Gastell Barnard, Swydd Durham wedi dod i fyw a gweithio yn ardal Llanbed yn 2004, cwrdd â'i gilydd yn Ionawr 2005, a dyweddio yn Rhagfyr 2011 y tu allan i Balas Buckingham. Roedd gyda nhw saith priodferch, tair ffrind i Anwen, Rhiannon Thomas, Ffion Thomas ac Emily Evans, a dwy gyfnither iddi sef Rebecca Miller ac Emily James, y rhain i gyd mewn ffrogiau coch hyfryd gydag ychwanegiadau glas tywyll. Hefyd dwy gyfnither Jonny sef Leah Dixon a Joanna Prudhoe y rhain mewn ffrogiau gwyn. Y gwas priodas oedd Mathew Bell, brawd Jonny a'r ystlwyr oedd Jonathon a Timothy Evans cefndyr Anwen a Craig Cooper, ffrind Jonny, i gyd wedi gwisgo mewn glas tywyll gyda theis coch. Roedd y gwasanaeth yng nghofal y parchedig Bill Fillery.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Nghwesty'r Plu, Aberaeron gyda'r pâr ifanc wedi teithio yno mewn camper van. Cafwyd diwrnod arbennig yn dathlu gyda teulu a ffrindiau.

Ar y dydd Sul canlynol cynhaliwyd barbiciw i deulu a ffrindiau yn y Fishers Arms, Cellan gyda'r haul yn parhau i dywynnu ar yr achlysur. Pob bendith ar y ddau.

Gŵyl Gwrw

Am y seithfed blwyddyn yn ganlynol cynhaliwyd Gŵyl Gwrw yn y pentref ac mae'n rhaid dweud fod pethau yn mynd o nerth i nerth.



Dechreuwyd yr ŵyl ar brynghawn dydd Gwener gyda llawer o bobol wedi dod i'w gefnogi dros y penwythnos yn enwedig ar y noson olaf pan oedd y lle yn orlawn. Roedd barbiciw wedi ei drefnu erbyn nos Sadwrn a blasus iawn oedd popeth ar werth. Diolch i'r gwagedd a fu'n brysyr yn ei baratoi. Diolch hefyd i'r rhai a fu'n gosod y babell ar nos Iau yn barod i'r ŵyl. Ond mae'n diolch pennaf yn mynd i Lesley Stephens, Glenis Gratwick a'u ffrindiau sy'n dod o Telford. Maent y gweithio yn galed iawn i sicrhau llwyddiant yr ŵyl.

Penwythnos lwyddiannus iawn unwaith eto ac os fuoch chwi yno, rwy'n siwr y byddwch yn cytuno â hyn.

Cyngor Cymuned

Estynnwn ein diolch a'n dymuniadau gorau i Liz Mercer, Gellidfydd, sydd newydd ildio ei swydd o fod yn glerc i'r cyngor. Mae Liz wedi bob yn y swydd ers tair blynedd. Yn ei lle hoffwn groesawu Alex Fox, Awelon sydd yn cymeryd drosodd.

Diolch yn fawr

Dymuna Ceris Quan, Sŵn yr Afon ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r arian dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn. Diolch arbennig i'r ffrindiau a fuodd wrthi yn brysyr yn addurno'r lle ar nos Iau a nos Wener adeg ei phen-blwydd. Prydferth iawn!

Llanbedr Pont Steffan

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrfa â Rhiannon a Jenkin Jones, Fronwen, Heol Maestir ar ei profedigaeth diweddar o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Peggy Davies o Bontsian.

Dartiau

Kevin Thomas o Abertawe oedd yn fuddugol dros Jamie Lewis o Aberteifi 6 i 1 yng nghystadleuaeth dartiau a gynhaliwyd yn Llain y Castell. Mae'r ddau yn chwarae ar y cylch PDC. Roedd 37 o ddynion wedi cymeryd rhan. Roedd 8 o ferched gyda Natalie Alker o Abertawe yn curo Eleri Thomas o Gwmann 3 i 2 yn gêm derfynol. Steve Alker aeth â'r wobwr am yr 'uchaf mas' gyda 160 a Kevin a Martin Thomas o Aberystwyth rannodd y wobwr am y goes orau wrth orffen coes mewn 12 dart. Noddwyd y dydd gyda Bwydydd Castell Howell, Bragdy Morgannwg, Heilyn Davies Pentrebach a Carpet Corner. Bydd Cyngair Llambed yn dechrau yn mis Medi. Os oes timau newydd am ymuno i gysylltu gyda Bedwyr Davies am dyddiad yr AGM. Nesa ar y calander dartiau Llambed bydd Noswaith gyda Eric Bristow, John Lowe a Bob Anderson gyda John Gwynne o deledu Sky ar y meic. Bydd hyn ar Nos Wener y 7fed o Chwefror 2014. Tocynnau yn £20. I archebu tocyn, ffoniwch Bedwyr ar 07580128039.

Diolch

Hoffai Delor a Hywel ddiolch o galon i bob un am y llu o gardiau ac anrhegion hael i ddathlu achlysur hapus eu Priodas Arian ar yr 28ain o Fai. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn. Mae amser yn hedfan! Fel ddoe, roedd y cyn-olygydd yn briodferch ar dudalen flaen Clone! 'Na sgwp! Diolch o galon eto.

Ras yr Iaith

Nos Iau Mehefin yr 20fed cynhaliwyd cyfarfod cymal Llanbed o Ras yr Iaith yn Llain y Castell. Cynhelir Ras yr Iaith ym mis Medi eleni fel digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Bydd y ras yn dechrau yn Senedd-dy Glyndwr ym Machynlleth ar brynhawn Gwener 13 Medi 2013 a gorffen ar ddydd Sul 15 Medi yng Nghastell Aberteifi, cartref yr Arglwydd Rhys yn Aberteifi. Bydd y ras yn galw yn Aberystwyth, Tregaron, Llanbed, Aberaeron a Llandysul. Nid ras gystadleuol yw hon. Yr enillydd fydd yr iaith Gymraeg a'r cymunedau sy'n cymryd rhan wrth i ni ddathlu'r iaith, gwella'n iechyd a thynnu pobl o bob cefndir at ei gilydd.

Mae sawl amcan i Ras yr Iaith:

- Hybu'r Gymraeg: Tynnu

siaradwyr Gymraeg, Cymry Gymraeg, pobl di-Gymraeg a dysgwyr at ei gilydd.

- Hybu Mudiadau Gymraeg: Cyfle i gryfhau mudiadau Gymraeg a chlybiau drwy godi proffil ac arian mewn digwyddiadau ar hyd y daith.

- Uno Cymru a'r Gymraeg: Bydd y Ras yn cysylltu ardaloedd Gymraeg a di-Gymraeg eu hiaith, trefol a gwledig, breintiedig a difreintiedig gan ddangos amrywiaeth siaradwyr Gymraeg.

- Codi Proffil y Gymraeg: Bydd yn denu sylw yn y cyfryngau Gymraeg a Chymreig yn genedlaethol ac yn lleol, ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y we. Bydd yn ffordd bositif o ddangos fod y Gymraeg yn iaith ac iddi filoedd o gefnogwyr.

- Codi Proffil Cymunedau: Tynnu sylw at fudiadau a sefydliadau cymunedol a chryfder cymunedau ar hyd y daith.

- Hybu Iechyd Corfforol: Bydd yn hyrwyddo iechyd corfforol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ffordd o Gymreigio clybiau athletau a chlybiau chwaraeon eraill sy'n cymryd rhan.

- Codi arian: Buddsoddi'r elw o'r ras yn ôl i fudiadau er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gweinyddir yr arian a godir gan Rhedadeig Cyf – cwmni nid-er-elw a sefydlwyd yn unswydd i gefnogi'r ras.

Bydd Ras yr Iaith yn dod trwy ardal Llanbed ar brynhawn dydd Sadwrn 14eg Medi. Bydd y Ras yn gadael Tregaron ac yn dilyn llwybr Llanddewi, Llanfair, Cellan, Cwmann i dref Llanbed ac yn mynd i gyfeiriad Pont Creuddyn, Temple Bar a Felinfach i orffen y dydd yn Aberaeron.

Bwriedir cynnal digwyddiad yn nhref Llanbed a gwahoddir sefydliadau, ysgolion a chwmnïoedd i noddi km am £50. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Carys Lloyd Jones, Menevia, 69 Stryd y Bont, Llanbed cyn gynted â phosib. Cynhelir cyfarfod nesaf cymal Llanbed yn Llain y Castell ar nos Fercher 10fed Gorffennaf am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb i gefnogi a chynorthwyo. Gellir cael mwy o wybodaeth o wefan www.rasyriaiith.org hoffi tudalen ar facebook a'i dilyn ar trydar.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar Sed o Fehefin cynhaliwyd Gyrfa Chwist ynn Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Mae'r enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Mary Jones, Stryd Y Bont, Llambed. 2il - Peter Jones, Llambed. 3ydd - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed.

Merched - Cydradd 1af - Morfudd

Slaymaker, Llambed a Cathrina Davies, Aberaeron. 2il - Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach.

Carden Miniature - Dynion - Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach. Merched - Dilwen Roderick, Stryd Y Bont, Llambed.

Bwrw Allan - Enillwyr - Gwendoline Jones, Llanybydder a Nana Davies, Stryd Newydd, Llambed. 2il - Ifan J. Jones, Felinfach a June Mason, Rhos Harford, Llambed.

Yna, ar 19eg o Fehefin cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Mae'r enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Breian James, Trelech. 2il - Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach. 3ydd - Gwendoline Jones, Llanybydder.

Merched - 1af - Ceri Lloyd, Ffostrasol. 2il - Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. 3ydd - Gwendoline Davies, Llanwnnen.

Carden Miniature - Dynion - Ray Jenkins, Llanybydder. Merched - Lil Thomas, Ffostrasol.

Bwrw Allan - Enillwyr - Morfudd Slaymaker, Llambed a Edward Lockyer, Hafan Deg. 2il - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed a Cathrina Davies, Aberaeron.

Bydd Gyrfaodd Chwist Mis Gorffennaf ar y 17eg a 31ain.

Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cylch

Nos Lun 10 Mehefin daeth aelodau a chyn aelodau Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cylch ynghyd i Westy Tyglyn Aeron i ddathlu pen-blwydd y gangen yn ddeugain oed. Hefyd braf oedd cael cwmni Jill Griffiths, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad, Tegwen Morris Cyfarwyddwraig ac Elizabeth Evans Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro ynghyd â dwy o swyddogion cyntaf y gangen sef Beti Evans, Llywydd ac Elizabeth Warmington, Trysorydd. Estynwyd croeso cynnes i bawb gan Noleen Davies, ein Llywydd ar achlysur arbennig iawn yn hanes y gangen ac offrymwyd gras gan Gwyneth Morgan, Ysgrifennydd. Yn dilyn cinio blasus iawn cafwyd anerchiad ysbrydoledig, yn ôl ei harfer gan ein Llywydd Cenedlaethol. Diolchodd yn ddiffuant i'r aelodau am gynnal y gangen ar hyd y blynyddoedd a chadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Soniodd bod y mudiad erbyn hyn yn un pwerus a dylanwadol iawn a hynny yn bennaf oherwydd gwaith diflino Tegwen. Talodd deyrnged hefyd i Elizabeth Evans am ei chyfraniad pwysig hithau. Soniodd am ei chysylltiad agos iawn â'r ardal gan iddi gael ei geni yn Llanybydder a symud oddi yno pan oedd yn bedair oed ac yna dod nôl a dechrau ar ei swydd gyntaf fel athrawes

yn Ysgol Gyfun Llambed. Aeth ymlaen i rannu eu phrofiadau â ni am ei hymweliad bythgofiadwy ag Ethiopia y llynedd gyda Branwen Nicolas o Gymorth Cristnogol. Dyma rai ffeithiau am y ferch yn y wlad honno:

Mae'n ddinesydd eilradd ac fe'i hystyrir yn eiddo i'w gŵr a'i deulu.

Ei gwaith yw cario dŵr ar eu cefnau a hynny mewn caniau plastig 20 litr am oriau maith. Mae'r ferch yn gweithio tua 17 awr y dydd, dynion tua 7 awr. Prosiect Mudiad Merched y Wawr eleni yw casglu bagiau ac mae dros unarddeg mil ohonynt wedi cyrraedd y Ganolfan yn Aberystwyth. Fe'u gwerthir yn yr Eisteddfod Genedlaethol i godi arian at Gymorth Cristnogol er mwyn cynnal prosiectau naill ai yn Ethiopia neu yn un o wledydd eraill y Trydydd Byd. Diolchodd i ni fel cangen am y croeso ac am gadw'r fflam ynghynn.

Cynigiwyd llwncdestun i'r gangen gan Tegwen mewn geiriau pwrpasol iawn a diolchodd yn gynnes am gael ymuno â ni yn y dathlu. Wrth ymateb, cyflwynodd Noleen grynoded hynod ddiddorol o hanes y gangen ers y cyfarfod cyntaf yng Nghaffi Mile End yn y dref gan ddwyn i gof nifer o lwyddiannau a digwyddiadau amrywiol o'r digri i'r difri mewn ffordd effeithiol iawn. Magwyd Elizabeth Evans yn ardal Llambed a soniodd ei bod yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y gangen. Datganodd hithau a Beti y Llywydd cyntaf eu gwerthfawrogiad cynnes am y gwahoddiad a dymunodd y ddwy yn dda i'r gangen i'r dyfodol.

Daeth y fraint o dorri'r gacen hardd iawn oedd wedi ei gwneud a'i haddurno mor gelfydd yn lliwiau'r Mudiad gan un o'n haelodau, Brenda Morgan i ran Noleen ein Llywydd. Mae ein dyled yn fawr iawn i Brenda am gyflwyno'r gacen arbennig hon yn rhodd ar gyfer y dathlu. Hefyd yn ystod y noson pleser pur oedd gwrandao ar ddatganiadau swynol iawn gan Carys Lewis gyda Lois Williams yn cyfeilio.

Cyn troi tuag adre, talwyd diolch haeddiannol gan Morwen Thomas, yr is Lywydd i'r swyddogion am drefnu'r noson ac yn arbennig i Gwyneth am ei gwaith enfawr gyda'r paratodau ac i Noleen a Janet am eu cymorth hwythau. Hefyd talodd werthfawrogiad cynnes i Brenda am ei charedigrwydd mawr, i swyddogion y Mudiad am ein hanrhydeddu â'u presenoldeb, i Carys a'i chyfeilyddes am greu naws hyfryd i'r noson, i aelodau'r pwyllgor am y gwobrau raffl, ac yn olaf ond nid y lleiaf i bawb am eu cefnogaeth ac i Westy Tyglyn Aeron am y bwyd ardderchog. Bu'r dathliad yn un llwyddiannus a chofiadwy ac yn glo teilwng iawn i'r

Llanbedr Pont Steffan



Aelodau Pwyllgor Treialon Cŵn Defaid Llambod yn cwrdd am y tro olaf mewn cinio yn y Grannell, Llanwnnen. Ni chynhaliwyd y treialon yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i amodau y Weinidogaeth Amaeth. Yn ystod y noson cyflwynwyd cyfanswm y gronfa ariannol sef £1,673.00 gan y Swyddogion i Ros Jones ar ran Ambiwlans Cymru. Yn eistedd o'r chwith mae Gwynne Davies; Andrew Jones, Trysorydd; Ros Jones; John Green, Cadeirydd and Ian Jones, Ysgrifennydd.

flwyddyn.

Bydd y gangen yn trefnu stondin poteli ar ddiwrnod carnifal y dref sef Sadwrn 3 Awst - manylion pellach i ddod.

Cymorth Cristnogol

Yn dilyn wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai mae'n dda cyhoeddi bod y swm anrhydeddus o £3,740.92 wedi dod i law yn Llanbedr Pont Steffan a'r cylch. Diolchir yn gynnes iawn i'r holl gasglwyr ac i'r cyfranwyr am gefnogi achos mor deilwng. Diolch o galon i bawb.

Casglwyd £441.82 yn ardal Cribyn hefyd yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol.

Diolchir yn gynnes iawn i Wil Ackerman, Cae Hir am fynd ati i gasglu ac i bawb am eu caredigrwydd. Mae'r swm ddaeth i law yn un hael iawn.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn un llwyddiannus unwaith eto yn hanes yr Ysgol Sul.

Mae'r aelodau wedi dod yn ffyddlon iawn bob nos Wener o 4 hyd 5 o'r gloch ac wedi cymryd rhan mewn nifer o oedfaon yr ifanc yn ystod y flwyddyn gan gyflawni eu gwaith yn raenus iawn. Bu'r plant a'r bobl ifanc yn diddori preswylwyr Cartref Hafandeg gan ddod â phleser mawr i bawb. Roedd yr aelodau yn flaenllaw iawn yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn ddiweddar a phawb yn uchel iawn eu canmoliaeth o'u cyfraniadau arbennig ar lafar ac ar gân.

Yn ystod y flwyddyn daeth y plant â chyflenwad o duniau i'w cyflwyno i Fanc Bwyd Llambod er mwyn

cynorthwyo'r teuluoedd sy'n dioddef yn ein cymdeithas. Mwynhawyd ein hymweliad â'r panto blynyddol yn Theatr y Werin Aberystwyth yn fawr iawn.

Diolch o galon i'r plant am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r Ysgol Sul ac i'r rhieni sydd mor barod i gynorthwyo yn wythnosol.

Mae'n arferiad gennym yn Noddfa ers sawl blwyddyn bellach i gynnal oedfa mewn lleoliad gwahanol ac eleni byddwn yn ymgynnull yn Ysgol Carreg Hirfaen ar Sul 21 Gorffennaf am 3.30 o'r gloch. Cynhelir oedfa deuluol fer i ddechrau ac yna edrychwn ymlaen i fwynhau picnic yng nghwmni ein gilydd yn yr awyr agored os yw'r tywydd yn caniatáu. Bydd y plant wedyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon a gêmiau amrywiol. Estynnir croeso cynnes i bawb yn cynnwys plant, bobol ifanc ac odolion i ddod ynghyd i fwynhau prynhawn o addoli ac o gymdeithasu gan obeithio am dywydd teg.

Aelwyd yr Urdd

Cafodd 15 o aelodau'r Aelwyd y cyfle a'r profiad o ymddangos ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni eto gan dderbyn canmoliaeth uchel gan y beirniaid am eu lleisiau swynol a'u perfformiad deniadol, apelgar yng nghystadlaethau y parti Cerdd Dant dan 19 oed - fe'u dyfarnwyd yn drydydd. Dewiswyd Teon a Meirion i fynd ymlaen i dderbyn y medalau ar ran y parti. Llongyfarchiadau iddynt a diolch yn fawr i Delyth Medi ac i Rhiannon am eu hyfforddi ac i Janet am ei chymorth hithau hefyd gyda'r paratodau.

Bu nifer o aelodau'r Aelwyd sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Bro Pedr yn llwyddiannus iawn yng nghystadlaethau gwaith cartref a chelf a chreffft yr Urdd. Derbyniwch ein llongyfarchiadau ar eich

llwyddiant.

Braf oedd gweld Elin Williams un o ffrindiau'r Aelwyd yn beirniadu yn yr adran lefaru eleni. Mae pawb ohonom ym ymhyfrydu yn yr anrhydedd haeddiannol yma ddaeth i'w rhan. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad Elin.

Bedyddwyr

Trefnir trip i aelodau a ffrindiau eglwysi Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi i ardal Abertawe ar Sul 28 Gorffennaf. Bydd angen i'r aelodau roi eu henwau i ysgrifenyddion eu capeli os gwelwch yn dda yn ystod yr wythnosau nesaf. Edrychwn ymlaen at ddiwrnod diddorol a phleserus yn nghwmni ein gilydd.

Cymdeithas Hanes

Daeth y tymor cyfredol i ben ym mis Mehefin gyda thrip wedi ei drefnu gan Penny David. Ymwelwyd â'r Ganolfan Cwrwglau yng Nghenarth, a chael hanes y casgliad arbennig o gwrwglau sydd yno. Rhai o Fietnam, yr India, yr Aifft, un o dalaith yr Indiaid Mandan yng Ngogledd America, a sydd â chysylltiadau honedig â Thywysog Madog; rhai o'r Iwerddon, Yr Alban yn ogystal â rhai lleol i'r Teifi a Thywi. Disgrifiwyd gwneuthuriad cwrwgl a'r defnydd a wneud ohono, y cyfan wedi ei blethu yn gelfydd a diddorol, gydag elfen o hiwmor yn

gweu drwy'r cyfan. Mwynhawyd pryd yn Yr Hudd Gwyn cyn gadael Cenarth am Landudoch.

Tywyswyd yr aelodau o gwmpas yr Hen Abaty, a disgrifiwyd yn fanwl beth fyddai ym mhob rhan ohono; sut y byddai'r mynachod yn cynnal gwasanaeth bob pedair awr - dydd a nos, a'r gwaith a gyflawnent yn ddyddiol. Esboniwyd nifer o bwyntiau'n berthnasol i'r adeiladwaith, - hyn yn ddiddorol iawn ac yn help i sylweddoli sut y byddai'r fath le wedi ei adeiladu. Caed cyfle i gael 'paned yn y Ganolfan arbennig sydd yn yr hen gartws, a diolchodd Selwyn Walters yn gynnes i Penny am drefnu'r diwrnod.

Bydd y Gymdeithas yn ail-ymgynnull ym mis Medi, - manylion yn Clonc wedi gwyliau'r Haf.

Diolch

Dymuna Mrs Annie Bowen, Fflat 2, 20 Stryd y Coleg ddiolch am y cyfarchion, yn gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion dderbyniodd ar achlysur pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cymdeithas Amaethyddol

Llanbedr Pont Steffan

Dathlu 125 Sioe

Mae'r Gymdeithas yn dathlu cynnal y 125fed Sioe eleni. Yn rhan o'r dathliadau rydym yn bwriadu cyhoeddi llyfr yn sôn am hanes y Gymdeithas a'r Sioeau. Os oes gyda unrhywun ohonoch luniau neu pwt o hanes i'w gynnwys yn y llyfr buaswn yn hoffi clywed wrthyh. Cysylltwch gyda Mr Selwyn Walters.

AR OSOD – CRIBYN

Bwthyn dwy ystafell

wely heb ei ddodrefnu.

Dim anifeiliaid anwes.

£300 y mis.

Cysylltwch â :-

01545 590295.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Gwersi Gitar: Theatr Felinfach
Stafell Gynadledda
Nos Fercher 16.30-21.00

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

Dal i fynd ... y chwarter canrif nesa'

Un o bleserau bach y cyfnod diwetha' yma oedd cael edrych yn ôl tros hen rifynnau o Golwg, a hynny tros chwarter canrif.

Dyna'r rheswm am y gipolwg hiraethus ar y gorffennol – ym mis Medi, fe fydd cylchgrawn Golwg yn dathlu ei 25ed pen-blwydd. Roedd angen edrych trwy'r hen rifynnau am fod cyfrol o'r pigion ar y ffordd – nid y darnau gorau o angenrheidrwydd bob tro, ond dyfyniadau o'r erthyglau sy'n dal rhywbeth o gymeriad y cylchgrawn dros y blynyddoedd a thalpiau o hanes Cymru.

Mi fydd yna wyl hefyd i ddathlu, a honno, wrth reswm, yn cael ei chynnal yn Llanbed a Felin-fach. Ar wahân i bythefnos mewn swyddfa dros dro yng Nghastellnewydd Emlyn, Llanbed fu'n galon ysbrydol i'r cylchgrawn a'r cyhoeddiadau eraill, Wcw a'i ffrindiau, Lingo Newydd ac, wrth gwrs, y gwasanaeth newyddion trwy'r dydd, Golwg360.

Mi fydd yr wyl, ar benwythnos llawn cynta' mis Medi, yn taro'n union efo 25 mlwyddiant y rhifyn cynta' ac yn cynrychioli llawer o natur a chynnwys y cylchgrawn – o roc i lenyddiaeth ac o adloniant i wleidyddiaeth.

Dyna oedd nod y cylchgrawn o'r dechrau – trin bywyd Cymru yn ei grynsyth – ac, wrth edrych yn ôl, mae dau beth amlwg yn eich taro chi'n syth. Cymaint o newid sydd wedi bod a chyn lleied hefyd.

Mae rhai o'r pynciau oedd yn y rhifynnau cyntaf i gyd yn dal i fod yn bwysig – o sefyllfa'r iaith a Bwrdd a Deddf Iaith i'r bygythiadau i fywyd cefn gwlad, gan wahanol glefydau byd ffermio a datblygiadau newydd. Anaddas.

Yn y rhifynnau cynta', roedden ni'n sôn am chwaraewr ifanc addawol o'r enw Ryan Giggs; tua chwe blynedd yn ôl, roedd gynnon ni erthygl ddigon tebyg am chwaraewr ifanc iawn arall, o'r enw Gareth Bale.

Petaen ni wedi cofio'r cynnwys i gyd, fyddai'r achosion o'r frech goch yn ardal Abertawe ddim yn syndod o gwbl. Yn ôl tua 2003, roedden ni wedi rhoi sylw i fam leol oedd yn cynnal ymgyrch lwyddiannus yn erbyn brechiad yr MMR – ac i ddoctoriaid oedd yn rhybuddio am beryglon hynny.

Gwaetha'r modd, mae yna thema arall i'w gweld yn gyson yn y tudalennau tros yr 20 mlynedd diwetha' o leia' – cam-drin plant. Ond tra oedden ni'n rhoi sylw i achosion fel un yr athro drama John Owen neu'r cam-drin yng nghartrefi'r Gogledd, roedd Jimmy Savile ac ambell i seren deledu arall yn gwneud yr un peth.

Do'n i ddim yn cofio'n iawn chwaith cymaint o frwydr oedd hi i sefydlu Golwg ac fel yr oedd hi'n ansicr tan y funud ola' a fydden ni'n llwyddo i grynhoi digon o arian i wneud y fenter yn bosib. A cholofn yn y Camarthen Journal wnaeth fy atgoffa fi fod cynghorwyr Llafur Dyfed wedi protestio am fod y cyngor sir eisiau cefnogi cylchgrawn Cymraeg.

Mi fydd pobol yn aml yn gofyn a yden ni'n edifar am sefydlu'r cwmni yn Llanbed, gan wybod y byddai'n haws cael newyddion ac yn haws cael rhagor o bobol i gynnig am swyddi petaen ni'n gweithio o Gaerdydd. A'r ateb pendant ydi ... na.

Yn ôl yn 1988, roedd hi'n bwysig fod cwmnïau ifanc Cymraeg yn sefydlu mewn ardaloedd fel hon, wrth i drên grefi S4C (coffa da amdano) yrru trwy orsafoedd y brifddinas a Chaernarfon.

Heb ddyfodol i ardaloedd a chymdogaethau fel un Clonc, does yna fawr o ddyfodol chwaith i'r iaith Gymraeg. Ac mae hynny'n cynnwys cwmnïau fel Golwg – neu S4C o ran hynny – sy'n gweithio trwy gyfrfwng yr iaith.

Y freuddwyd nesa' fyddai gallu gwneud mwy efo ardaloedd fel yma. Creu rhywbeth newydd ar y We a fyddai'n cryfhau gwaith y papurau bro ac yn rhoi dimensiwn newydd iddyn nhw. Rhywbeth a fyddai'n cryfhau bywyd cymunedau ac yn cryfhau gwasanaethau cenedlaethol Golwg yr un pryd.

Fydd hyn ddim yn hawdd chwaith ac mae peryg y bydd y cyrff mawr fel y BBC ac S4C yn trio cornelu'r farchnad. Ond mi wnaethon ni lwyddo unwaith, chwarter canrif yn ôl



Bwyd Braf

Gan obeithio am 'Haf Braf' y mis yma rwyf am gynnig casgliad o rysetiau Hafaidd i chi. Rhai sy'n addas ar gyfer prydiau 'Al Fresco' wrth fwynhau bwyd yn yr awyr agored, yn fasedg picnic neu farbeciw yn yr ardd.

Mae'n hyfryd gwneud y gorau o gynnyrch bendigedig sydd gan yr Haf i'w gynnig i'r gegin.

Mwynhewch 'bwyd braf' yr Haf – efallai y caf gwrdd â rhai ohonoch, ddarllenwyr Colofn Coginio Clonc, wrth i mi gynnal arddangosfeydd coginio mewn Ffeiriau Bwyd dros yr Haf.

Hwyl yr Haf,

Gareth

Salad Syml, blasus a lliwgar

Cynhwysion

1 twba o domatos bach

1 pelen o gaws mozzarella

1 winwnsyn coch

Ychydig o olewydd wedi'u torri'n ddarnau

Ychydig o ddail 'roced'

Olew olewydd a finegr balsamic.



Dull

1. Torrwch y tomatos yn hanner a gosodwch ar blat; rhwygwch y caws drostynt.
2. Torrwch y winwnsyn yn ddarnau mân. Taenwch yr olewydd a'r dail roced drostynt.
3. Gorffennwch gydag ychydig olew a finegr balsamic.

'Frittata'r Haf'

Cynhwysion.

8 ŵy.

2 llond llwy fwrdd o olew

2 bupur coch wedi'i torri'n fân


1 winwnsyn wedi'i dorri'n fân

8 taten newydd wedi'u coginio a'u sleiso

6 tomato halengoch wedi torri'n fân

Llond 1 tun o gorn melys

Ychydig o berlysiau ffres



Dull

1. Curch yr wyau, gydag halen a phupur i'w blasu
2. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio a meddalwch y pupur coch a'r winwns. Yna i mewn â'r tomatos, tatws a'r corn melys. Arllwyswch yr wyau a'r perlysiau drosto. Coginiwch ar wres isel am tua 10 munud. Trowch y cyfan drosto yn ofalus gydag help plat, coginiwch am tua 5 munud arall.
3. Torrwch yn drionglau i'w gweini – yn gynnes neu'n oer gyda salad.

Cacen bananas a mafon

Cynhwysion.

125gm o fenyn

125gm o siwgwr mân


225gm o flawd codi

2 ŵy

3 banana wedi'u gwasgu'n stwnsh

½ llwy de o bowdwr soda

150gm o fafon



Dull

1. Leiniwch dun torth â phapur gwrthsaim
2. Trowch y ffwrn i 180°C, 160° F, Nwy 4. Hufenwch y menyn a'r siwgwr nes yn feddal. Yna i mewn a'r ŵy a'r banana a plygwch.
3. Rhydyllwch y blawd a'r powdwr soda dros y gymysgedd a phlygwch yn ofalus wrth ychwanegu'r mafon.
4. Gosodwch yn y tun pobi a phobwch am 35 i 40 munud.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partïon

Rhifyn mis Medi

Yn y Siopau

5ed Medi

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

26ain Awst

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAIU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
**Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.**

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog


Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanybydder

Ysgol Llanybydder

Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Dodgeball' yn yr ysgol er mwyn codi arian i Sefydliad y Galon. Codwyd dros £800.



Yng nghystadleuaeth Mathemateg 'Sumdog' y sir daeth ysgol Llanybydder yn ail. Yn y llun mae Sam Evans o flwyddyn 3. Roedd Sam wedi gorffen y gystadleuaeth yn nawfed allan o 1,031 o ddisgyblion.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Vicky ac Arwel, Pistyllgwyn ar enedigaeth eu mab bach. Wyr i Eirlys, Eurfann a Carol, Heol-y-Dderi.

Eglwys Sant Pedr, Llanybydder

Dydd Sul, 9fed Mai, ar ôl wythnosau o ymarfer, aeth merched yr ysgol Sul, eu rhieni, a rhai aelodau o'r Eglwys i Dregaron i Wyl Gorawl y Ddeoniaeth.

Braf oedd gweld yr Eglwys yn llawn ar gyfer gwasanaeth y plant, ac roedd yn hyfryd gweld pedair ysgol sul yn cymeryd rhan, a dwy ohonynt, yn cynnwys Llanybydder, yn Ysgolion Sul newydd.

Ysgrifennodd Kay sgritp yn seiliedig ar y rhaglen deledu 'Britains got talent'.

Roedd Ellie, Andrea ac Olivia yn 3 beirniaid, a Sasha, Sophie, Nia ac Elain yn cystadlu yn 'Cymru's got talent'.

Gwnaeth Sophie ddawnsio disgo a cael 2 bleidlais allan o 3, tynnodd Sasha lun arbennig iawn o'r Ficer a chael 2 bleidlais allan o 3, a gwnaeth Elain fwyta brechdan jam mewn 1 munud a chael 2 bleidlais allan o 3.

Talentau a hanner ferched!

Ar ddiwedd y sgets, gwnaeth Nia ddod 'mlaen i gystadlu, gan ddweud ei bod hi yn mynd i adrodd beth oedd talent Duw, ond roedd 2 o'r beirniaid sef Andrea ac Olivia, ddim yn hoffi ei 'act' hi felly dyma nhw yn rhoi 2 bleidlais iddi yn syth. Ond ar ôl i Nia egluro taw Duw oedd wedi rhoi'r talentau i'r cystadleuwyr, gwnaeth Ellie ddechrau newid ei meddwl, a dweud wrth y beirniaid eraill bod Nia yn iawn, a taw Duw ddylai ennill cystadleuaeth 'Cymru's got talent' gan taw fe sydd â'r dalent fwyaf, sef rhoi talentau i bawb yn y byd. Felly dyma'r beirniaid i gyd yn

ail-feddwl, a dyma Duw yn cael 3 bleidlais! A gwnaeth pawb glapio a dathlu fod Duw wedi ennill y gystadleuaeth.

I orffen y perfformiad gwnaeth y merched ganu 'Braf yw bwyta'.

Gwnaeth y merched waith arbennig iawn a diolch iddynt am gyflawni eu gwaith â graen. Diolch hefyd i'r rhieni â ddaeth â hwy i'r ymarferion ac i bawb â ddaeth i'w cefnogi yn Nhregaron. Diolch i Susan am chwarae'r piano yn yr ymarferion ac yn y gymanfa, a diolch i Kay am ysgrifennu'r sgritp ac am ddysgu'r plant.

Dydd Sul 16eg o Fai, cafodd y merched ail-gyfle i berfformio eu sgets mewn gwasanaeth arbennig i ddathlu Sul y Tadau. Dechreuwyd y cwrdd gan y Ficer yn egluro pa mor bwysig yw dathlu Sul y tadau, er mwyn i ni ddangos i'n tadau faint rydym yn eu caru.

Darlennod Kay ddarn o farddoniaeth hyfryd yr oedd hi wedi ysgrifennu am ei thad yn dilyn ei farwolaeth.

Gwnaeth Ellie ac Elain gyhoeddi yr emynau, a gwaneth Sian helpu gyda'r casgliad, a darllenodd Vicky ac Avril ddarnau o'r Beibl.

Darlennodd Sasha ddarn o farddoniaeth a oedd yn sôn am faint mae ei thadcu yn meddwl iddi, a pha mor ddiolchgar y mae hi am bopeth mae e yn ei wneud drosti bob dydd. Roedd hyn yn hyfryd, gan fod tadcu Sasha yn y cwrdd i glywed hyn.

Roedd y bregeth ychydig yn wahanol, wrth i'r plant wneud tasg gyda Susan o ysgrifennu ar bapur mawr storïau doniol am eu Tadau.



Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanybydder o'r Gymdeithas Diabetes yn festri Aberduar ar y 11eg o Fehefin. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jack Jenkins Perthi. Cydymdeimlodd â theulu Dolydd ar golli priod, mam a mamgu yn ddiweddar. Roedd Mair yn un o sefydlwyr y gangen ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, a bu yn gadeirydd gweithgar y gangen ers y dechrau. Derbyniwyd siec o £915 oddi wrth y teulu er cof amdani, arian a dderbyniwyd yn lle blodau adeg yr angladd. Derbyniwyd siec o £450 hefyd oddi wrth teulu y diweddar Joyce Williams, Pleasant Hill, Llanwnen, trwy law Nans Davies, arian a dderbyniwyd er cof amdani. Diolchodd y cadeirydd i'r ddau deulu, tra hefyd yn cydymdeimlo â hwy yn eu colled. Croesawyd Eleri Retallick o glwb "Weight Watchers" Llambed i'r cyfarfod a bu yn sôn wrth yr aelodau am fwyta'n iach. Cyflwynodd hithau siec o £100 i'r gangen ar ran aelodau'r clwb, arian a godwyd trwy werthu dillad nad oedd eu hangen arnynt bellach. Diolch i hithau ac aelodau'r clwb hefyd.

Wedyn gwnaeth y Ficer ddarllen y storïau hyn i'r gynulleidfafa.

Eglurodd y Ficer pa mor arbennig mae ein Tadau, a'r pethau gwych maent yn gwneud i ni.

Daeth Ellie ac Adrian 'mlaen i brofi pa mor arbennig yw perthynas tad a merch, wrth i'r Ficer ofyn i Ellie droi ei chefn ar Adrian, a chwympo nôl mewn i'w freichiau. Dyma hi yn syrthio nôl i freichiau ei thad, heb boeni dim am fod yn ddiogel.

Ar ôl y bregeth daeth y merched ymlaen i berfformio eu sgets a'r gân-roedd pawb yn cytuno fod y merched yn arbennig, a pha mor lwcus i ni fel Eglwys i gael grŵp o ferched sydd mor fodlon i weithio'n galed a dod i'r ysgol Sul a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gwasanaethau.

I orffen y cwrdd gwnaeth Nia, Andrea a'r Ficer ddarllen gweddïau. Roedd gweddi Andrea yn diolch i'w mamgu a'i chwaer, y bobol sydd yn bwysig yn ei bywyd hi.

Ac er mwyn dangos i'r tadau a oedd yn y cwrdd faint maent yn meddwl i ni i gyd, aeth y merched o gwmpas â losin iddynt fel anrheg Sul y Tadau.

Diolch i Kay am ysgrifennu'r cwrdd, i Susan am gael bobl i gymeryd rhan ac am goginio cacenau, i Eleri am chwarae'r organ, ac i Steve am baratoi cacenau arbennig i'r plant, ac iddo fe a Heather am baratoi'r coffi ar ddiwedd y cwrdd.

Diolch i bawb am ddod i'r cwrdd arbennig yma.

Llangybi a Betws

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Ar Ddydd Sadwrn, 15fed o Fehefin, buodd Bro'r Dderi yn cystadlu yn rali clybiau ffermwyr ifanc Sir Ceredigion gyda'u presenoldeb yn amlwg trwy gydol y dydd.

Gwnaeth y tîm beirniadu stoc, sef Rhodri Pugh-Davies, Aron Dafydd a Gethin Morgan, yn dda iawn gan gyrraedd y trydydd safle am feirniadu defaid Torddu fel tîm. Llwyddodd Gethin Morgan i ennill o dan 16 gan gipio hefyd yr unigolyn gorau yn adran y defaid gyda 99 o farciau allan o 100. Yn ogystal, enillodd tlws am yr unigolyn gorau yn y beirniadu stoc defaid, ceffylau a gwartheg dan 16 ac hefyd yn cael 2il yn y beirniadu ceffylau.

Roedd llawer o'r aelodau yn cystadlu yn ras y siariot gyda lluo o glybiau yn cystadlu a chipiwyd y wobwr gyntaf. Roedd rhaid iddynt wneud cyflwyniad yn mwneud â'r Celtiaid a wedyn cael ras yn y siariot ac ar ôl rhoi cyflwyniad ffyrnig daethant i'r brig. Da iawn chi a phob lwc yn y Sioe Frenhinol yn cynrychioli Ceredigion. Buodd Guto Gwilym, Hedydd Davies a Melissa Davies yn llwyddianus yng nghystadleuaeth 'Ar y Newyddion' tra'n gorfod trafod am geffylau y Carneddau a rhoi bwletin o newyddion ar y testun.

Roedd Rhys Douglas yn cystadlu yng nghystadleuaeth y cneifio am y tro cyntaf eleni ac yn cipio'r drydydd wobwr mewn cystadleuaeth gyffrous a brwd. Da iawn ti Rhys a phob lwc gyda'r cneifio yn y dyfodol. Llongyfarchiadau i bawb hefyd a fu'n cystadlu yn ystod y dydd, gwnaeth pawb yn arbennig o ystyried y safon uchel drwyddi draw ymhob cystadleuaeth.

Hoffem ni fel clwb ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo yn ystod y cyfnod a oedd yn arwain at y rali ac rydyn yn gwerthfawrogi eich cymorth a'ch gwaith diwyd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth chwaraeon Cymru ar y 23ain o Fehefin lle roedd tri o fois Bro'r Dderi sef Rhys Douglas, Dewi Uridge ac Aron Dafydd yn cystadlu gyda tîm o Geredigion yng nghystadleuaeth brwd y 'Frisbee'. Ar ôl llawer o gystadlu brwd daeth Ceredigion i'r brig felly da iawn bois am fod yn rhan o'r tîm buddugol.

Bydd y clwb yn cynnal ei cyfarfod blyneddol ar y 4ydd o Orffennaf er mwyn ethol swyddogion newydd a rhaid i ni fel clwb ddiolch yn fawr i'r swyddogion sydd wedi gweithio'n galed iawn dros y flwyddyn diwethaf a dymuno'n dda i'r rhai a fydd yn mynd i'r brifysgol.

Cofiwch, fod yna groeso i aelodau newydd a gobeithiwn eich gweld yn y Sioe Frenhinol!

Ysgol Y Dderi

Cynhaliwyd ein mabolgampau ar

brynhawn braf iawn ar ddechrau Mehefin. Cawsom gystadlu brwd gan yr holl blant, y staff a'r rhieni, ac roedd y sgôr terfynol yn agos dros ben! Da iawn bawb, ac yn enwedig tŷ Teifi am ennill y mwyafr o bwytiau ac am wneud y dwbwl eleni gan mai nhw oedd yn fuddugol yn Eisteddfod yr ysgol hefyd! Tîm talentog iawn!

Gan ein bod yn sôn am fydd chwaraeon hoffwn longyfarch Gwion Griffiths Payne o flwyddyn 5, a enillodd Ras yr Hafod yn ddiweddar. Mae Gwion wrth ei fodd yn cymryd rhan mewn cystadlaethau traws gwlad ac yn rhoi o'i orau bob amser, felly rydym yn falch iawn ohono.

Cafodd Blwyddyn 1 a 2 brofiad arbennig o weithio gyda Rhiannon Roberts, yr arlunydd, yn ystod y mis diwethaf. Creu murlun i addurno un o waliau allanol yr ysgol oedd eu tasg, ac mae'r campwaith terfynol yn hynod o liwgar ac yn edrych yn brydferth iawn.

Ar fore Mercher, y 12fed o Fehefin, daeth cerddorfa athrawon offerynnol y sir i'n diddanu gyda chyngerdd amrywiol ac addysgiadol. Braf iawn oedd cael eistedd yn ôl a gwranddo - diolch yn fawr iddynt!

Mae pob dosbarth wedi mwynhau ymweliadau yn ystod y mis hwn, a phob un wedi elwa o'r amrywiaeth o brofiadau a gyflwynir iddynt yn eu gwaith thema. I goedwig Longwood i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored aeth plant y Cyfnod Sylfaen, aeth Blwyddyn 3 a 4 i Theatr y Mwldan, Aberteifi, i weld gwe-gysylltiad gyda'r Amgueddfa Brydeinig, a Blwyddyn 5 i ddysgu mwy am sut mae'r rollercoaster yn gweithio gyda diwrnod yn Oakwood. Treuliodd Blwyddyn 5 ddiwrnod diddorol yn Ysgol Uwchradd Tregaron yn ddiweddar, yn mwynhau nifer o weithgareddau oedd yn cynnig blas o addysg uwchradd. Diolch yn fawr i staff Tregaron am drefnu diwrnod mor hwyllog.

Cyfnod prysur iawn sydd o'n blaenau eto o hyn tan ddiwedd y tymor yn Ysgol y Dderi. Bydd Blwyddyn 1 a 2 yn mynd i Bentre Bach am noson, Blwyddyn 5 yn treulio 3 diwrnod yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd, ac mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at ein trip blyneddol wrth gwrs. I Folly Farm bydd y Cyfnod Sylfaen yn mynd, a'r Adran Iau i Bluestone.

Cynhelir ein Ffair Haf eleni ar Ddydd Sadwrn, y 13eg o Orffennaf, - croeso cynnes i chi ymuno gyda ni, gan obeithio y bydd yr haul yn gwenu



Aeth Blwyddyn 6 ychydig yn bellach ar eu hymweliad nhw, gan deithio i Ddenmarc am bump diwrnod prysur! Cafodd y plant a'r staff, - Mrs Heini, Miss Lisa a Miss Fiona, amser grêt a phrofiadau bythgofiadwy.

arnom!

Fe fydd hi'n hyfryd cael croesawu Mrs Kate a Miss Gwen yn ôl atom, ar ôl cyfnodau mamolaeth, cyn diwedd y flwyddyn ysgol hon, - 'rwy'n siwr eu bod nhw'n teimlo fod yr amser wedi hedfan! Cyn y gwyliau hefyd, fe fyddwn yn ffarwelio gyda Mrs Linda, Miss Helen, Miss Karren a Miss Lisa. Byddwn yn gweld eisiau pob un ohonynt a hoffwn ddiolch o galon iddynt am eu holl waith. Bydd Miss Lisa yn cychwyn fel athrawes yn Ysgol Tirdeunaw, Abertawe, ym mis Medi, felly dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd. Mae hwn yn gyfle hefyd i ni ddymuno pob hwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd ar fin ein gadael am yr ysgol uwchradd. Pob lwc i chi i gyd!

Edrychwn ymlaen 'nawr at wyliau'r haf, a chyfle i rhoi ein traed lan ac ymlacio!!

Merched y Wawr

Ym mis Mehefin treuliwyd orig ddiddorol iawn yng nghwmni y foneddiges Marged Phillips. Sôn y bu am ei mam - un a fu yn genhades am rai blyneddau yng ngogledd yr India yn nechrau'r ganrif ddiwethaf. Gwelsom luniau o'r ysbyty yn Lurshia a'r ysgol a'r bobl oedd yn gweithio yno fel athrawon a meddygon. Roedd gan y wraig wadd lawer o eitemau diddorol gan gynnwys llyfrau, tystysgrifau ac offer yn perthyn i lwyth y Gurkas ond y mwyafr trawiadol oedd casgliad o ddillad arbennig a fyddai brenin a brenhines y llwyth yn ei gwisgo ac fe gafodd wasanaeth dau berson ifanc i arddangos y dillad lliwgar yma. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r siaradwraig am noson ddifrif ac hanesyddol ac i'r modelwyr am wneud eu gwaith mor dda gan Irene Lewis. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Gwyneth Jones a Mair Spate ac fe enillwyd y Raffl gan Glenys Lloyd, Rowena Williams a Deborah Jones.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Aled French ar ôl ei ddamwain - baglodd wrth chwarae pêl-droed yn yr ysgol.

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Anghlad
- Digwyddiadau Maes



Bywllenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambod.

01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llambod**
01570 422206 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Roedd ein Gymanfa Sulgwyn eleni yn Eglwys Tregaron, ar ddiwrnod braf iawn. Bu criw da o Ysgol Sul Llanllwni, ac ysgolion Sul eraill yn cymeryd rhan yn y prynhawn. Roedd yr Eglwys yn gyffyrddus iawn, a gwnaeth y plant eu gwaith yn arbennig o raenus. Diolch i Janet a'r rhieni am baratoi'r plant a'r bobol ifanc. Arweinydd y Gymanfa oedd Mrs. Ceinwen Evans, a bu wrthi'n ddiwyd yng ngwasanaeth y plant, a'r Hwylol Weddi i gael y gorau allan o'r cantorion. Diolch, Ceinwen am eich gwaith caled, a'ch dyfalbarhad. Cawsom wefr ychwanegol yn ystod yr hwylol Weddi, wrth i Kes Huysmas roi eitemau gyda Miss Elonwy Pugh yn cyfeilio iddo. Diolch pellach i Elonwy am gyfeilio yn yr ymarferion, ac i Mary y gyfeilyddes yn Eglwys Tregaron. Roedd rhai unigolion selog wedi methu dod i'r ymarferion, a'r Gymanfa eleni, ac rydym yn anfon ein dymuniadau gorau iddynt am adferiad iechyd buan a llwyr.

Bedydd

Roedd y Sul, Mehefin 23ain yn un prysur iawn yn Eglwys Sant Luc. Yn y prynhawn braf oedd gweld yr Eglwys yn llawn ar gyfer gwasanaeth Bedydd Sanctaidd Cian Dafydd ac Elliw Wyn, efeilliaid Dylan a Bethan Jones, Fferm Beili Bedw, Llanllwni. Bu'r ddau fach yn dawel iawn wrth i'r Ficer Suzy Bale eu bedyddio. Croeso mawr iddynt i deulu'r Eglwys, a dymuniadau gorau i'r teulu ym Meili Bedw.

I ddilyn am 7.30 cafwyd ein Noson o Fawl flynyddol. Braf oedd croesawu Côr Clychau'r Fedwen, a'u harweinydd Parch. Ganon Aled Williams. Cafwyd nifer o eitemau swynol iawn gan y côr, ac hefyd datganiadau unigol gan ddwy o'r aelodau. Diolch yn fawr iddynt. Cafwyd canu da gan y gynulleidfia o dan arweinyddiaeth y Parch. Suzy Bale, a'r Parch. Aled Williams. Yr un mor wresog yw'r diolch iddynt ac hefyd i'r ddwy organyddes Janet Howells a Betty Prydderch.

Bydd y Noson Goffi eleni ar y 19eg o Orffennaf yn y Neuadd Gymunedol am 7 o'r gloch.

C.F.I. Llanllwni

Wel - mi ddaeth y noson fawr! 1af o Fehefin 2013 - noson cino dathlu C.F.I. Llanllwni yn 70 mlwydd oed. Fe ddaeth llu o aelodau presennol a gorffennol y clwb, ynghyd â ffrindiau a rhieni i ddathlu bodolaeth a llwyddiant y clwb, nid yn unig am y flwyddyn diwethaf ond am y 70 mlynedd ers sefydlu'r clwb nôl yn 1943.

Cawsom noson fendigedig yng ngwesty'r Ty Glyn, Ciliau Aeron. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Ifan Davies, Abercwm, ond oherwydd salwch nid oeddynt yn medru bod yn bresennol, a chafwyd ychydig o eiriau ar eu rhan gan Mrs Eirlys Owen. Siaradwraig wadd y noson oedd Mrs Eirios Thomas, trefydd y Sir, a diolch iddi hi am ei geiriau pwrpasol iawn ar

yr achlysur. Roedd cacen flacus iawn wedi ei pharatoi ar gyfer y noson gan Roseanne Joynson, un o arweinyddion y clwb, ac roedd yn werth ei gweld a'u blasu! Torrwyd y gacen gan Sion Evans, ein cadeirydd presennol. Cafwyd hefyd adroddiad cryno iawn gan Sion am holl ddigwyddiadau a llwyddianau'r flwyddyn. Bob blwyddyn mae'r aelodau yn pleidleisio am 'Aelod y Flwyddyn', ac enillydd y darian am y flwyddyn diwethaf oedd Betsan Jones, High View. Llongyfarchiadau mawr i ti Betsan! Ar ôl y bwyta, dathlu a joio, roedd rhaid rhoi bach o waith i'r meddwl!

Nos Wener canlynol, y 7fed o Fehefin oedd ein Helfa Drysor blynyddol. Roedd hi'n noson fendigedig o braf, a daeth llu o geir i ymuno yn y daith - cyfanswn o 24 o geir. Gorffennwyd y noson gan phryd o fwyd yn y Talardd. Yn fuddugol ar y noson oedd teulu High View - Llongyfarchiadau! Yn ail agos iawn oedd tîm Rhian, Angela a Steffan. Diolch i chi gyd am gefnogi. Hoe fach sydd o flaenau'r swyddogion ac aelodau yn awr, ond dim ond tan dydd Llun, y 26ain o Awst pan fydd y clwb yn cynnal eu treialon a sioe flynyddol. Gobeithio'n wir cawn ddiwrnod sych eleni! Penwythnos diwethaf mis Medi mae'r clwb yn cynnal y gweithgareddau olaf o ddathliadau. Dydd sadwrn yr 28ain o Fedi fydd yna Ras Hwyl yn dechrau o Neuadd yr Eglwys. I fewn yn stafell yr eglwys fydd yna arddangosfa wedi ei pharatoi o eitemau, lluniau a.y.y.b o'r 70 mlynedd diwethaf. Ar y nos Sul, 29ain o Fedi bydd yna noson o Fawl yn yr Eglwys, ac hefyd fydd yr arddangosfa ar agor yn y neuadd. Felly mae gyda chi gyd dau fis i hyfforddi'r corff i redeg a'r llais i ganu - dim esgusodion! Os oes yna unrhyw un ag eitemau, lluniau, neu unrhywbeth yn ymwneud â'r clwb ers y 70 mlynedd diwethaf ac yn fodlon rhoi eu fenthg i ni gogyfer â'r arddangosfa, a wnewch chi gysylltu â Meryl neu unrhyw un o aelodau'r clwb. Byddwn yn ddiolchgar iawn o'u cael i'w harddangos. Hefyd mae yna fygiau dathlu gennym ar werth am £10 yr un, eto cysylltwch â Meryl cyn iddynt werthu allan. Cewch fwy o fanylion ynglŷn â'r Ras Hwyl a'r Noson o Fawl yn y rhifyn nesaf. Hwyl am y tro!

Ysgol Llanllwni

Aeth dau dîm o'r ysgol i chwarae pêl-droed 5 bob ochr ar gaeau Llanfihangel-ar-arth gan fwynhau'n fawr. Datblygu sgiliau athletau sydd yn ein sesiynau Campau'r Ddraig y tymor yma.

Aeth yr Adran Iau lawr i gaeau'r pentref am ddiwrnod i wersylla. Cawsant amser da yn codi'r pebyll a gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Bu Mrs Jones yn gwneud sesiynau 'Iaith a Chwarae' gyda phlant a rhieni'r Ysgol Feithrin. Darllenwyd stori Hari, Heti â'r Dynion Hapus gan wneud gweithgareddau amrywiol.



Yn y llun mae Betsan Jones, aelod y flwyddyn yn derbyn y darian wrth Sion Evans, y caderirydd ac Eirlys Owen, ar rhan y llywyddion.

Cafodd blwyddyn 6 wersio beicio ar iard yr ysgol gan Ffion Rees o'r adran Diogelwch Ffyrdd. Llongyfarchiadau i bawb am lwyddo. Bu dosbarth Mrs Jones yn Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin yn gweld sioe Rala Rwdins gan fwynhau yn fawr iawn Bu cynrychiolwyr o 'Blue Lagoon' yn siarad â'r Adran Iau am ddiogelwch dŵr.

Daeth dau o gyn-ddisgyblion, sef Jonathan Brayley a Delor Evans atom am wythnos o brofiad gwaith o Ysgol Bro Pedr. Gobeithio eich bod wedi mwynhau yn ein plith.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gae Tegfan. Diolch i Tommy a Margaret am fenthg y cae. Bu pawb yn cymeryd rhan yn y rasys. Ar ddiwedd y prynhawn tîm Talog enillodd y darian dan gapteiniaeth Ceris ac Alwyn. Yn ennill y medalau am y mwyaf o farciau ym mhob blwyddyn oedd Steffan Evans, Alwyn Evans, Megan Evans, Rowen Woodcraft, Hanna Thomas, Mathew Williams, Elan Evans, Tudur George a Caio Benson.

Enillwyr y tarianau oedd:-

Bachgen yr Adran Iau - Alwyn Evans. Merch yr Adran Iau - Megan Evans a Rowen Woodcraft

Bachgen y Cyfnod Sylfaen - Tudur George. Merch y Cyfnod Sylfaen - Elan Evans.

Ras hir yr Adran Iau - Steffan Evans. Ras hir hir y Cyfnod Sylfaen - Tomos Thomas

Diolch i blwyddyn 6 am noddi'r tarianau. Diolch i'r rhieni a ddaeth i gefnogi'r plant.

Erbyn bydd y rhifyn yma yn ymddangos bydd y plant wedi bod yng nghystadleuaeth Pêl-droed a Rownderi Ysgolion Cynradd Cylch Llanbed yn Ysgol Bro Pedr. Fe fydd pawb wedi bod yn mabolgampau Cylch Pencader yn Ysgol Cae'r Felin. Bydd disgyblion blwyddyn 6 wedi treulio amser naill ai yn Ysgol Dyffryn Teifi neu Ysgol Bro Pedr.

Mae nifer o ddigwyddiadau gennym eto cyn diwedd y tymor. Bydd blwyddyn 5 a 6 yn mynd i chwaraeon PESS yng Nghanolfan Hamdden Llanbed a rhai o'r Adran Iau yn chwarae pêl-droed yn Llanwnen. Gobeithiwn gerdded ar heol y mynydd

i gasglu sbwriel fel rhan o gynllun 'Clanau Sir Gâr'. Byddwn yn mynd ar drip ysgol i Folly Farm ar ddiwedd y tymor.

Bydd chwech o ddisgyblion blwyddyn 6 yn ffarwelio â ni - Carys, Nia, Iestyn a Lewis yn dechrau yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed ym mis Medi a Ceris a Steffan yn dechrau eu haddysg uwch yn Ysgol Dyffryn Teifi. Dymunwn pob llwyddiant i chi gyd a chofiwch alw i'n gweld.

Dymunwn wyliau haf hapus i ddarllenwyr Clonc.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mehefin:

1af - 240 - Sally Davies, Maes, Llanllwni. 2ail - 234 - Myra Downer, Llwynonn, Llanllwni. 3ydd - 97 - Tudur Williams, Clyniau, Llanllwni.

Pwyllgor Henoed

Bydd y trip eleni yn mynd ar Ddydd Mawrth, Awst 6ed a'r bwriad yw mynd am dro dros Mynydd Epynt ac ymlaen i Landrindod, Llanfair ym Muallt ac Aberhonddu. Enwau mor gynted â phosibl i Mrs Sally Davies, Maes [01559 395268] neu Dewi Davies [01570 480218]. Bydd pryd o fwyd wedi ei drefnu ar y ffordd adref.

Yn anffodus gan fod yr ychydig aelodau o'r Pwyllgor i gyd o oedran pensiwn, a chan nad oes neb arall wedi dangos diddordeb, dyma'r flwyddyn olaf y byddant yn trefnu - ac ar ôl y trip, bydd unrhyw arian a fydd dros ben yn cael eu gyflwyno i'r Ambiwylans Awyr. Bu y trysorydd Emrys Evans, farw yn gynharach yn y flwyddyn a theimla pob un mae dyma'r amser i derfynu. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu dros y blynyddoedd.

Ar wellhad

Da yw deall bod David Evans, Murmur y coed adref ac yn parhau i wella ar ôl cyfnod yn yr Ysbyty.

Hefyd, gobeithio fod Mrs Maud Jones, Fferm Talardd yn teimlo'n well erbyn hyn yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Mrs Lilian Griffiths, Ffynnonddrain a fu farw yn Ysbyty Glangwili ar ddiwedd mis Mehefin.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shwmae? Mae'r haul yn dechrau gwenu ac mae'r blodau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os bydd hi'n parhau'n braf y cawn ni gyfle i fynd mas i chwarae i'r ardd ar y llithren a'r siglen, heb anghofio neidio lan a lawr ar y trampolin wrth gwrs! Ond cofiwch bod yn ofalus a gwranddo ar oedolyn.

Wel cefais llond gardd o flodau lliwgar a hardd dros yr wythnosau olaf yma. Roeddwn yn hoffi blodau Alwena Mair Owen o Lanllwni, Ceinwen o Lanybydder, Elen Morgan o Drefach, Megan Dafydd Lewis a Hari Jones o Gwmann, Rhys Jones a Lowri Hanna Jones o Lanarth, Elan Jenkins ac Elis Jenkins o Alltbylaca a Steffan Hedd Howells o Lanwenog, Holly Davies o Abertawe a Teifi Edwards o Gwrtnewydd. Ond y blodau taclusaf oedd rhai Luned Haf, Blaenhirbant Uchaf, Cwmsychpant. Da iawn i bawb a llongyfarchiadau mawr i ti Luned Haf!

Un diwrnod braf yr wythnos ddiwethaf fe wnes i grwydro ar draws y cae at Ffion y ffermwr oedd yng nghanol y cae â llond lle o ddefaid. Roedd Sion y cneifiwr wedi dod draw i'w helpu i gneifio'r defaid i gyd, yn barod am y tywydd braf. Beth am fynd ati i liwio llun o Sion y cneifiwr? Cofiwch ei ddychwelyd ataf cyn diwedd mis Awst. Mwynhewch eich gwyliau haf!

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Luned
Haf
Jones

Cneifio



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne

LLANOFR

Rai wythnosau'n ôl daeth cyfle i gyfrannu at Ysgol Undydd ym mhentref deniadol Llanofer yng Ngwent dan nawdd Cymdeithas Gwenynen Gwent. Dyma, felly, drafod rhai enwau'r de-ddwyrain y tro hwn.

Enw personol, enw sant yn amlach na heb, a fydd yn dilyn yr elfen 'llan' mewn enwau lleoedd yn aml iawn. Derbyniodd hynafiaethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg mai sant o'r enw Gofor sy'n cael ei goffâu yn Llanofer. Roedd ffynnon, 'Ffynnon Ofer', yng ngerddi'r plasdy ac ar ôl y ffynnon hon y cafodd 'St Gofor's Well', yng Ngerddi Kensington, Llundain ei henwi gan Benjamin Hall, Arglwydd Llanofer. Mae ef ei hun, wrth gwrs, yn cael ei goffâu gan 'Big Ben', enw cloc mawr gwreiddiol Westminster.

Fe wyddom erbyn hyn mai camgymeriad oedd cysylltu enw Gofor â'r llan hon, gan fod y ffurfiau cynharaf ar yr enw (o'r 13g a'r 14g) yn awgrymu mai'r enw personol Myfor sydd yma.

Dwy ffurf gynnar ar yr enw yw 'Lammovor' (1285) a 'Lanmovor' (1349-53). Ystyr yr enw yw 'eglwys Myfor'. Enw personol yw Myfor, gyda'r elfen 'my-' yn dynodi parch ac mae'n cael ei dilyn gan yr enw personol Môr'.

Erbyn hyn mae'r eglwys yn Llanofer 'Eglwys Myfor', wedi ei chysegru i Bartholomew.

Myfor yw'r sant sy'n cael ei goffâu hefyd ym Merthyr Mawr yn Sir Forgannwg. Ystyr Merthyr Mawr yw 'cysegrfan Myfor' a'r elfennau yw 'merthyr' sef cysegrfan a'r enw personol Myfor; mewn cyfnod cynnar dryswyd rhwng yr enw personol Myfor a'r ansoddair 'mawr'. Erbyn hyn mae'r eglwys ym Merthyr Mawr wedi ei chysegru i Teilo.

Byddai'n ddiddorol inni ddilyn trywydd rhai enwau eraill sy'n cynnwys yr elfen 'merthyr', ac ystyried, yn gyntaf, yr enw Patrisio neu Patrishow yn Sir Frycheiniog, sydd heb fod ymhell iawn o Llanfer. Mae'r eglwys ym Mhatriisio wedi'i chysegru i Isio neu Isho neu Isw neu Ishaw. Mae ansicrwydd ynglŷn ag union sillafiad enw'r sant a goffeir yma gan fod y

dystiolaeth am ffurfiau cynnar ar yr enw yn brin iawn.

Ond mae sicrwydd hollol am yr elfen gyntaf yn yr enw sef 'merthyr', Merthyr Iso 'cysgrfan Iso' felly, fel yn Merthyr Tudful 'cysegrfan Tudful', Merthyr Celer 'cysegrfan Celer' (Llangel, erbyn hyn) a Merthyr Gwenog 'cysegrfan Gwenog' (Llanwenog, erbyn hyn) a Merthyr Myfor 'cysegrfan Myfor' (Merthyr Mawr erbyn hyn) ac ym Merthyr Cynog yn Sir Frycheiniog.

Mae hanes yr enw Llanofer yn wers bwysig i bawb sy'n dechrau ymhél ag enwau lleoedd - rhaid cael hyd i'r ffurf gynharaf ar yr enw cyn mentro ar ddehongli'r enw hwnnw gydag unrhyw sicrwydd.


Gair Lladin arall a ddatblygodd yn enw lle yng Ngwent yw 'basilica'. Dyma enw eglwysig a ddynodai le i addoli i gychwyn ond a ddatblygodd i ddynodi lle sef Basaleg. Sefydlwyd priody yma yn 1100 a'i chysegru i Basil Sant - enghraifft ddiddorol o gysegriad a wnaed ar sail enw lle. Fel arall y bydd pethau'n digwydd fel arfer - enw lle yn datblygu ar sail cysegriad. Mae 'Basaleg' yn elfen brin iawn mewn enwau lleoedd. Mae'r unig enghraifft arall y gwn i amdani yn digwydd yng Ngheredigion lle mae'n hen enw ar afon ym Mhenrhyn-coch.

Gŵr lleol a chanddo gysylltiad â theulu Llanofer oedd Tim Hughes (1862-1951), Pen-top, Llanllwni. Saer melinau oedd Tim Hughes wrth ei alwedigaeth ac yn 1894 adeiladodd felin wlân, Ffatri Gwenffrwd, i Arglwyddes Llanofer, Augusta Hall, Gwenynen Gwent.

Ceir llun o Ffatri Gwenffrwd ar safle Casglaiad y Werin:

<http://www.casgliadywerincymru.co.uk/Item/7590-llanover-estate-sketch-of-gwenffrwd-woollen-f>

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddymru.org



Llwyddiant pellach i aelodau'r Urdd



Côr Cerdd Dant Ysgol Bro Pedr BL 10-13 yn ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro.



Parti Llefaru Blwyddyn 10-13 Ysgol Bro Pedr a oedd yn llefaru'r darn 'Nos Da' gan Dylan Iorwerth ac yn ennill yr ail wobwr yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro.



Tîm siarad cyhoeddus Ysgol Bro Pedr (Adran Hŷn) yn ennill yr ail wobwr yng nghystadlaeth siarad cyhoeddus yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro. Yn y llun, mae o'r chwith - Sian Elin Williams, Gethin Morgan, Gwawr Hatcher ac Aron Dafydd.




Aron Dafydd - 3ydd Rhyddiaith BL 12 a 13 yn Eisteddfod yr Urdd 2013.



Lowri gyda'i thystysgrif am ddod yn drydydd yn y Gystadlaeth 'Cyfansoddiad Lleisiol Oedran Blynnyddoedd 10 a dan 19 oed' yn yr Urdd eleni.



Dwy chwaer, Ffion a Chloe Betts Jones, disgyblion yn Ysgol y Dderi yn ennill gwobrau am waith cerameg yn Adran Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro. Ffion yn ennill y drydedd wobwr i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 a Chloe yn ail mewn gwaith cerameg i blant Blwyddyn 3 a 4.



Aelodau Parti Cerdd Dant Aelwyd Llanbedd yn dathlu ar ôl cipio'r drydedd wobwr i bartion o dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Benfro.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Mabolgampau ysgolion y Cylech



Iestyn Owens mabolgampwr blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr



Lydia Chen mabolgampwraig blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr



Enillwyr Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Carreg Hirfaen ar ddiwrnod eu Mabolgampau.



Mr Roderick yn cyflwyno tarian i gapteiniaid Dewi sef tŷ buddugol mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bro Pedr. Yn y llun gwelir capteiniaid Pedr a Steffan hefyd.




Capteiniaid tŷ Teifi Ysgol Y Dderi ar ôl ennill mabolgampau'r ysgol.



Mr Williams yn cyflwyno tarian i gapteiniaid Dewi sef y tŷ buddugol ym mabolgampau'r ysgol. Yn y llun gwelir capteiniaid Pedr a Steffan hefyd.



Mabolgampau Ysgol Cwrtnewydd - capteiniaid y tîm buddugol oedd Owain Jones a Hanna Davies gyda tharian Carwyn a Meinir Davies.



Enillwyr plant Cyfnod Sylfaen Ysgol Carreg Hirfaen.



Mabolgampau Ysgol Cwrtnewydd - Owain Jones oedd y bachgen â'r mwyaf o bwyntiau ac yn ennill tarian goffa Stephen Sutcliffe ac enillydd tarian goffa Ieuan Jones oedd Elin Davies.



Enillwyr Mabolgampau Ysgol Llanllwni.